**Report No. 49/11**
**National Park Authority**

## REPORT OF ADMINISTRATION & DEMOCRATIC SERVICES MANAGER

---

**SUBJECT:**
**INDEPENDENT REMUNERATION PANEL FOR WALES DRAFT ANNUAL REPORT**

Purpose of Report

1. To inform Members of the consultation draft Annual Report of the Independent Remuneration Panel for Wales on Members' 'salaries';
2. To canvass Members' opinion on the decisions contained in the report, and
3. To authorise the Administration and Democratic Services Manager to draft a response to the consultation, to be considered at the Extraordinary Meeting of the National Park Authority scheduled to be held on the 21st September 2011.

Introduction/Background

The Independent Remuneration Panel for Wales was appointed in January 2008 by the (then) Welsh Assembly Government Minister for Social Justice and Local Government under the provisions of *The Local Authorities (Allowances for Members) (Wales) Regulations 2007*. The Panel was established on a permanent basis to determine the maximum levels of allowances payable by county and county borough councils.

Following the passing of the Local Government (Wales) Measure on the 10th May 2011, the Panel's remit has been extended to include National Park Authorities, Fire and Rescue Authorities and 'civic heads' in local authorities. Not only that, the Measure has extended the Panel's powers to enable it to prescribe payments rather than determine the maxima as it has done in the past.

Members of the Panel met with Members and Officers of all three Welsh National Park Authorities in April 2011 to gather evidence on the level of remuneration currently payable to their Members and on the workload involved with being a Member and/or Chair of the Authority and its Committees.

The Panel's first Annual Report under its extended powers has now been published for consultation, with a response deadline of the 3rd October 2011.

Current situation

The Authority currently pays a Basic Allowance of £2,664 to each Member of the Authority, whilst a Special Responsibility Allowance is payable to the under-mentioned office holders:

| **Office held** | **£** |
|---|---|
| Chair of the Authority | 5,156 |
| Vice-Chair of the Authority | 2,578 |
| Chair of Development Management Committee | 2,165 |

| | |
|---|---|
| Vice-Chair of Development Management Committee | 1,429 |
| Chair of Audit & Corporate Services Review Committee | 238 |
| Chair of Conservation & Planning Review Committee | 238 |
| Chair of Recreation & Tourism Review Committee | 238 |
| Chair of Personnel Committee | 357 |

The draft annual report has been circulated to Members but, in short, the Panel has decided:

A. that a Basic Salary (allowance) of £3,550 per year be paid to 'NPA ordinary Members';

B. that a Senior Salary (previously known as Special Responsibility Allowance) be paid to the following office holders:

| | |
|---|---|
| Chair of the Authority | £8,875 |
| Vice-Chair of the Authority | £5,920 |
| Chair of Committee | £4,440 |

C. that the Senior Salary is payable to a maximum of 4 Members;

D. a £256 daily fee (£128 for ½ day) is paid to the Chair of the Standards Committee, with a daily fee of £198 (£99 for ½ day) payable to 'ordinary Members' of the Standards Committee (these payments are capped at a maximum of 4 full days per year), and

E. that a local authority Member who is also a Council executive office holder should not be additionally remunerated for a role as an ordinary or senior Member of an NPA.

Conclusion

If implemented today, the salaries detailed in the Panel's report would amount to an increase of approximately 14.7% on the existing Members' allowances budget, however if in future the Authority did not comprise any Council executive office holders the increase would be 42.2%. Once the final report has been published, the Authority will have no option but to abide by the Panel's decision. It is, therefore, imperative that the Authority responds to the consultation draft.

**Recommendation**

**Members' opinion is sought in order that a response to the Independent Remuneration Panel's consultation can be drafted for consideration at the Extraordinary Meeting of the Authority scheduled to be held on the 21st September 2011.**

Background Documents

Independent Remuneration Panel for Wales Annual Report: consultation draft

*(For further information, please contact Janet Evans, Administration & Democratic Services Manager on extension 4834 or by e-mailing janete@pembrokeshirecoast.org.uk)*

*Author: Janet Evans, Administration & Democratic Services Manager*

*Consultees: Chief Executive Officer and Finance Manager*

Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub
Cadeirydd a Phrif Weithredwr Un Llais Cymru
Arweinydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd/Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub
Cynghorau Tref a Chymuned

Eich cyf . Your ref :
Ein cyf . Our ref : qA932122
1 Awst 2011

Annwyl Gyfaill

**ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2012/13**

Yn unol â gofynion Adran 146 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, amgaeaf er gwybodaeth gopi o Adroddiad Blynyddol drafft y Panel, gan gynnwys cynigion a fyddai'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13. Mae copi ohono wedi'i anfon hefyd at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Er mwyn bodloni'r gofyniad sydd yn y Mesur i gyhoeddi'r adroddiad hwn erbyn 31 Rhagfyr 2011, dylai unrhyw sylwadau yr hoffech eu cyflwyno ynglŷn â'r adroddiad ddod i law erbyn 3 Hydref 2011 fan bellaf. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Dyma fydd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf i'w gyhoeddi o dan gylch gwaith a phwerau estynedig y Panel, a ddarperir gan y Mesur. O dan y cylch gwaith estynedig hwn, mae'r Panel wedi penderfynu ar ystod a lefel y lwfansau sydd ar gael i aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, yn ogystal ag aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol.

Mae'r Panel hefyd wedi defnyddio ei bwerau newydd estynedig i ragnodi'r symiau i'w talu, yn hytrach na phennu uchafsymiau. Drwy hyn, mae'r Panel nid yn unig wedi ymateb i geisiadau rheolaidd gan gynghorwyr, yn ystod amrywiol ymarferion ymgynghori'r Panel, i gymryd y weithred o bennu lwfansau allan o arena wleidyddol siambr y cyngor ac osgoi "ras i'r gwaelod" a all fod yn niweidiol, ond rydym hefyd wedi ystyried effaith ariannol debygol hynny ar awdurdodau. Yn achos awdurdodau lleol, mae'r Panel yn cynnig gostwng Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau o 5% a 10%, yn y drefn honno, islaw'r uchafsymiau

Ystafell/Room N:07
Llawr Cyntaf/First Floor
Adeiladau Coron/Crown Buildings
Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/
CF10 3NQ
Ffôn/Tel: 029 2082 6913
Ffacs/Fax: 029 2082 5346
Ebost/Email:irpmailbox@wales.gsi.gov.uk
www.remunerationpanelwales.org.uk
www.panelcymrugydnabyddiaetharriannol.org.uk

presennol. Er y bydd hyn yn arwain at arbedion blynyddol sylweddol ledled llywodraeth leol yng Nghymru yn gyffredinol, bydd yn golygu costau ychwanegol i nifer fach o gynghorau sydd wedi bod yn talu'n sylweddol is na'r cyfartaledd. Drwy symud tuag at y strwythur talu cyson hwn ledled Cymru, mae'n anochel y bydd nifer fach o gynghorwyr naill ai ar eu hennill neu ar eu colled y flwyddyn nesaf, unwaith yn unig, o ganlyniad i benderfyniad y Panel.

Mewn adroddiadau blaenorol, rydym wedi nodi'r swyddi cynghorwyr hynny mewn awdurdodau lleol rydym yn eu hystyried fel rhai amser llawn, sef arweinwyr ac aelodau gweithredol yn benodol, ac wedi pennu lefelau eu cydnabyddiaeth ariannol yn unol â hynny. Yn ystod ein hymgynghoriadau diweddar ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, canfuom fod rhai uwch gynghorwyr yn aelodau o'r Awdurdodau hyn hefyd, gyda rhai mewn swyddi â chyfrifoldeb, sydd heb gael cydnabyddiaeth ariannol hyd yn hyn. Er bod y Panel yn cydnabod bod uwch gynghorwyr yn dod â chyfoeth o brofiad i'r cyrff eraill maent yn eu gwasanaethu, rydym o'r farn nad oes gan gynghorwyr sydd â swyddi amser llawn yn eu cynghorau ddigon o amser i ymgymryd â'r fath ddyletswyddau ychwanegol gyda chyrff eraill. Rydym yn ystyried y gydnabyddiaeth ariannol maent yn ei derbyn gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub fel "taliadau dwbl" ac, fel yr esbonnir gennym yn yr Adroddiad hwn, rydym o'r farn na ddylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol ar gyfer y cyfrifoldebau hyn.

Mae'r Panel yn deall y bydd y Rheoliadau presennol ar gyfer pennu lwfansau aelodau Cynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub a Chynghorau Tref a Chymuned yn cael eu dirymu gan Lywodraeth Cymru cyn bo hir. Bydd darpariaethau arbed yn caniatáu parhau i wneud taliadau o dan y rheoliadau tan 1 Ebrill 2012.

Er bod y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad Blynyddol ddod i rym ar 1 Ebrill 2012, y diwrnod ar ôl cyfarfod blynyddol pob awdurdod fydd y dyddiad ar gyfer rhoi penderfyniadau'r Panel ar waith. Mae'r Panel yn sylweddoli y cynhelir Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yn ystod mis Mai 2012, ac ychydig yn ddiweddarach yn achos Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Rhwng 1 Ebrill a dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, mae'r Panel yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub gynnal lefel y lwfansau y mae pob un ohonynt wedi'i phennu ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12.

Caiff lefelau presennol y lwfansau sydd ar gael i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned eu cynnal hefyd hyd nes y byddwn mewn sefyllfa i wneud ein penderfyniadau. Rhagwelwn y caiff fframwaith cydnabyddiaeth ariannol cenedlaethol ar gyfer y cyrff hyn ei gyflwyno ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14, a hynny'n dilyn proses i gasglu tystiolaeth.

Mae'r Adroddiad Blynyddol drafft yn cynnwys penderfyniadau ynglŷn â lefel y cyflogau sydd ar gael i Benaethiaid Dinesig a Dirprwy Benaethiaid Dinesig Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol. Mae'r Panel yn gwerthfawrogi nad yw'r pŵer hwn ar gael iddo ar hyn o bryd. Deallwn y bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio adrannau 22 a 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn darparu i'r fath daliadau gael eu penderfynu gan y Panel ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13.

O dan y strwythur Uwch Gyflogau newydd a gyflwynir gan yr Adroddiad Blynyddol, mae'r Panel yn rhagweld y ceir gostyngiad yn nifer y ceisiadau am gydnabyddiaeth bod swyddi penodol yn cynnwys cyfrifoldebau arbennig y gallai deiliad y swydd dderbyn uwch gyflog amdanynt. O 1 Ebrill 2012, dylai awdurdodau nodi y bydd y broses y mae'r Panel yn ei dilyn wrth ystyried ceisiadau o'r fath yn newid mewn dwy ffordd o ganlyniad i'r Mesur. Er bod yn rhaid parhau i gyhoeddi penderfyniadau'r Panel mewn perthynas â'r ceisiadau hyn ar ffurf

adroddiad atodol, mae'r Mesur erbyn hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ymgynghori ag awdurdodau perthnasol, y Gweinidog a phartïon sydd â buddiant ynglŷn â chynnwys yr adroddiad atodol drafft (yn ogystal â'r adroddiad blynyddol). Mae'r Mesur hefyd yn pennu na all penderfyniadau'r Panel ddod i rym tan 3 mis ar ôl cyhoeddi adroddiad.

Mae copïau o'r llythyr hwn ac o'r Adroddiad drafft yn cael eu hanfon hefyd at Swyddfa Archwilio Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, y prif bleidiau gwleidyddol a Chynghrair y Trethdalwyr.

Mae copi electronig o'r Adroddiad drafft hwn, ynghyd â chopïau o adroddiadau blaenorol y Panel, ar gael ar ein gwefan ar www.remunerationpanelwales.org.uk

Yn gywir

Richard Penn
Cadeirydd

Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

## Adroddiad Blynyddol

DRAFFT

Rhagfyr 2011

## Rhagair



Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf sy'n seiliedig ar bwerau a swyddogaethau estynedig y Panel ar ôl pasio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011[1] ar 10 Mai 2011 ac, fel sy'n ofynnol gan y Mesur, drafft ymgynghori ydyw[2]. Wrth ddefnyddio ei bwerau diwygiedig mae'r Panel yn sensitif i'r hinsawdd economaidd gyffredinol sy'n golygu bod yn rhaid i ni barhau i fod yn ddarbodus o ran cydnabyddiaeth ariannol yn y sector cyhoeddus. Mae cyfyngu ar gyflogau, colli swyddi, y broses o ddiwygio pensiynau a gwneud *'mwy gyda llai'*oll yn creu awyrgylch llym sy'n gefndir i'r penderfyniadau a nodir yn yr adroddiad hwn.

Hon oedd pedwaredd flwyddyn waith y Panel a dyma ein pedwerydd Adroddiad Blynyddol. Ers llunio ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf ym mis Rhagfyr 2010 rydym wedi cyhoeddi dau Adroddiad Atodol. Roedd y cyntaf yn ymwneud â Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig (LCAau) mewn tri chyngor a nododd yr ail Adroddiad Atodol benderfyniadau'r Panel ynghylch talu LCAau i gynghorwyr Ynys Môn. Ym mis Ebrill 2011 hysbysodd y Panel bob awdurdod lleol o'r newidiadau i gyfraddau milltiroedd Cyllid a Thollau EM a chyhoeddwyd yr hysbysiad hwn hefyd ar ffurf Adroddiad Atodol.

Cyhoeddodd y Panel bapur sefyllfa – '***Symud Ymlaen: Cynigion y Tu Hwnt i 2010'*** - hefyd. Yn y ddogfen hon gwnaethom ddadansoddi'r modd y gweithredwyd fframwaith y Panel ledled Cymru a gwneud cynigion ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, rhai ohonynt y gallem eu gweithredu ein hunain a rhai y byddai angen i ni gael cymeradwyaeth y Mesur i'w gweithredu[3]. Mae Rhan 8 o'r Mesur hwnnw yn ymdrin â thaliadau a phensiynau aelodau ac yn ystyried swyddogaethau, pwerau ac adroddiadau'r Panel.

Er gwaethaf y sefyllfa ariannol anodd, rydym hefyd wedi dod i'r casgliad ei bod yn amserol defnyddio ein pwerau newydd i ragnodi taliadau yn hytrach na dim ond pennu uchafsymiau fel rydym wedi'i wneud yn y gorffennol. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael i ni wedi cadarnhau bod pennu taliadau yn allweddol i sicrhau fframwaith cydnabyddiaeth ariannol cyson a theg ledled Cymru. Fodd bynnag, er mwyn cwtogi cymaint â phosibl ar y costau ychwanegol a allai fod yn gysylltiedig â'r dull gweithredu hwn mae'r Panel wedi penderfynu lleihau Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau o'r uchafsymiau presennol. Canran y cwtogiadau fydd 5% a 10% yn y drefn honno. Er y bydd hyn yn golygu arbedion blynyddol sylweddol ym mhob rhan o lywodraeth leol yng Nghymru bydd costau ychwanegol i nifer fach o gynghorau. Bydd hefyd gynghorwyr unigol a fydd naill ai ar eu hennill neu eu colled yn sylweddol y flwyddyn nesaf o ganlyniad i bennu taliadau.

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents/enacted/welsh.
[2] Adran 146 (7) o Fesur Llywodraeth Leol 2011.
[3] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-localgov.htm.

DRAFT

Rydym hefyd wedi ymestyn y fframwaith cenedlaethol i gynnwys taliadau i aelodau Parciau Cenedlaethol, aelodau Awdurdodau Tân ac Achub a phenaethiaid dinesig mewn awdurdodau lleol, gan gysoni taliadau â thaliadau awdurdodau lleol sydd wedi'u lleihau. Er bod y Mesur wedi rhoi pwerau ychwanegol i'r Panel o ran taliadau i aelodau cynghorau cymuned a thref, rydym wedi penderfynu gohirio ystyried ymestyn y fframwaith cenedlaethol ymhellach tan flwyddyn arall. Bydd y penderfyniad hwn yn rhoi amser i'r Panel wneud dadansoddiad mwy ystyriol o'r cyfryw daliadau.

Mae'r Panel yn cydnabod na fydd pawb yr effeithir arnynt gan ein penderfyniadau eleni yn fodlon ar y canlyniad. Fodd bynnag, rydym yn fodlon, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Panel ac o dan yr amgylchiadau presennol, ein bod wedi sicrhau fframwaith cenedlaethol integredig, teg a fforddiadwy. O dan y Mesur mae'n ofynnol i'r Panel ystyried sylwadau gan y rhai yr effeithir arnynt gan ei gynigion, felly rydym yn edrych ymlaen at gael unrhyw sylwadau erbyn 3 Hydref 2011. Gallwch gyflwyno eich sylwadau yn ysgrifenedig i Ysgrifenyddiaeth y Panel yn y cyfeiriad sy'n ymddangos ar dudalen olaf yr adroddiad hwn, neu drwy anfon neges e-bost at irpmailbox@wales.gsi.gov.uk.

**Richard Penn**
**Cadeirydd**

DRAFT

# Cynnwys


| | | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| Crynodeb o Lwfansau | | 1 |
| Pennod 1 | Cyflwyniad | 5 |
| Pennod 2 | Fframwaith y Panel: Egwyddorion Cydnabyddiaeth Ariannol | 11 |
| Pennod 3 | Taliadau i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Lleol | 13 |
| Pennod 4 | Taliadau i Aelodau awdurdodau Parciau Cenedlaethol | 26 |
| Pennod 5 | Taliadau i aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru | 33 |
| Pennod 6 | Taliadau i aelodau Cynghorau Cymuned a Thref | 40 |
| Pennod 7 | Darpariaeth Pensiwn ar gyfer Aelodau Awdurdodau Perthnasol yng Nghymru | 42 |
| Pennod 8 | Monitro Cydymffurfiaeth â Gofynion y Panel | 44 |
| Atodiad 1 | Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | 46 |
| Atodiad 2 | Canllawiau: Rhestr o Gyfrifoldebau a Chydnabyddiaeth Ariannol Aelodau | 58 |
| Atodiad 3 | Canllawiau: Gofynion Cyhoeddusrwydd | 60 |


DRAFT

DRAFT

# Crynodeb o Gyfrifoldebau a Chydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Awdurdodau Perthnasol

## Awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn 2012/2013

**Telir Cyflog Sylfaenol blynyddol fel a ganlyn:**

| | | |
|---|---|---|
| Awdurdod Lleol (ALl) | £13,175 | (22 o brif awdurdodau lleol Cymru) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) | £3,550 | (3 Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru) |
| Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru | £1,350 | (3 awdurdod Tân ac Achub cyfun yng Nghymru)) |

**Uwch Gyflogau**

**Ni fydd nifer yr Uwch Gyflogau (gan gynnwys y Cyflog Sylfaenol) sy'n daladwy ym mhob Grŵp o Gynghorau yn fwy na'r canlynol:**

- **Grŵp A: uchafswm o 17 o uwch gyflogau yn daladwy.**
- **Grŵp B: uchafswm o 16 o uwch gyflogau yn daladwy.**
- **Grŵp C: uchafswm o 15 o uwch gyflogau yn daladwy.**

**Os bydd Cyngor yn penderfynu talu Uwch Gyflog fe'i telir ar y lefelau penodedig canlynol:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Band 1 | Arweinydd (ALl Grŵp A) | £52,700 Y flwyddyn | (Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe) |
| | Arweinydd (ALl Grŵp B) | £47,500 | (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam) |
| | Arweinydd (ALl Grŵp C) | £42,300 | (Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen) |
| | Dirprwy Arweinydd (ALl Grŵp A) | £37,100 | (fel uchod) |
| | Dirprwy Arweinydd (ALl Grŵp B) | £33,460 | (fel uchod) |
| | Dirprwy Arweinydd (ALl Grŵp C) | £29,820 | (fel uchod) |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Band 2 | Swydd Weithredol Arall (ALI Grŵp A) | £31,900 | (fel uchod) |
| | Swydd Weithredol Arall (ALI Grŵp B) | £28,780 | (fel uchod) |
| | Swydd Weithredol Arall (ALI Grŵp C) | £25,660 | (fel uchod) |
| Band 3 | Cadeiryddion Pwyllgorau (ALI) | £21,910 | |
| | Arweinydd Grŵp (ALI) | £21,910 | (Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf) |
| | Pennaeth Dinesig (ALI Grŵp A) | £23,715 | (Maer/Cadeirydd y Cyngor) |
| | Pennaeth Dinesig (ALI Grŵp B) | £21,375 | (Maer/Cadeirydd y Cyngor) |
| | Pennaeth Dinesig (ALI Grŵp C) | £19,035 | (Maer/Cadeirydd y Cyngor) |
| | Cadeirydd awdurdod Parc Cenedlaethol | £8,875 | (Bannau Brycheiniog, Sir Benfro, Eryri) |
| | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru | £10,085 | (Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, De Cymru) |
| Band 4 | Arweinydd Grŵp (ALI) | £16,920 | (Arweinydd grwpiau gwleidyddol sy'n cynnwys dim llai na 10% o holl aelodau'r cyngor) |
| | Dirprwy Bennaeth Dinesig (ALI Grŵp A) | £18,445 | (Dirprwy Faer/Dirprwy Gadeirydd y Cyngor) |
| | Dirprwy Bennaeth Dinesig (ALI Grŵp B) | £16,625 | (Dirprwy Faer/Dirprwy Gadeirydd y Cyngor) |
| | Dirprwy Bennaeth Dinesig (ALI Grŵp C) | £14,805 | (Dirprwy Faer/Dirprwy Gadeirydd y Cyngor) |
| | Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Prif Bwyllgor (Awdurdod Parc Cenedlaethol) | £5,920 | (Bannau Brycheiniog, Sir Benfro, Eryri) |
| | Cadeirydd Pwyllgor Arall (Awdurdod Parc Cenedlaethol) | £4,440 | (Bannau Brycheiniog, Sir Benfro, Eryri) |
| | Dirprwy/Cadeirydd Pwyllgor (Awdurdod Tân ac Achub) | £5,095 | (Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, De Cymru) |
| | Cadeirydd Pwyllgor Arall (Awdurdod Tân ac Achub) | £3,400 | (Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, De Cymru) |

DRAFT

**NODER:** Bydd Adroddiad Atodol y Panel dyddiedig 13 Ebrill 2011 yn parhau'n gymwys o ran taliadau i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn nes y bydd gweithrediadau'r Cyngor yn dychwelyd i'r drefn arferol, hynny yw bod swyddogaethau'r awdurdod a'i bwyllgor gweithredol yn cael eu cyflawni gan yr aelodau etholedig. O'r dyddiad hwnnw, dylai trefniadau taliadau'r Cyngor fod yn unol â phenderfyniadau'r Panel ar gyfer awdurdodau Grŵp C.

.

**Taliadau i Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd, Pwyllgor Safonau (ALl) | £256 ffi ddyddiol | (22 o brif awdurdodau lleol Cymru) |
| Cadeirydd, Pwyllgor Safonau (Awdurdod Parc Cenedlaethol) | £256 ffi ddyddiol | (3 awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru) |
| Cadeirydd, Pwyllgor Safonau (Awdurdod Tân ac Achub) | £256 ffi ddyddiol | (3 awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru) |
| Aelod cyffredin (ALl) | £198 ffi ddyddiol | (o 22 o bwyllgorau safonau a 22 o bwyllgorau craffu addysg a phwyllgorau craffu trosedd ac anhrefn awdurdodau lleol |
| Aelod cyffredin (Awdurdod Parc Cenedlaethol) | £198 ffi ddyddiol | (fel uchod) |
| Aelod cyffredin (awdurdod tân ac achub) | £198 ffi ddyddiol | (fel uchod) |
| Aelod cyffredin/cadeirydd (ALl) | £226 ffi ddyddiol | (aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau ALlau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau i gynghorau tref a chymuned) |

**Ad-dalu Costau**

**Bwriedir i lwfansau ar gyfer:**

- **Gofalu am Ddibynyddion.**
- **Teithio a Chynhaliaeth**

**hyd at yr uchafsymiau a nodir isod, ad-dalu symiau gwirioneddol a wariwyd wrth gynnal busnes swyddogol 22 o brif awdurdodau lleol a thri awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru a thri awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru yn 2012/13.**

**Lwfans Gofal:** uchafswm o £403 y mis ar ôl cyflwyno derbynebau.

**Lwfans Teithio:** yn ôl cyfraddau diwygiedig Cyllid a Thollau EM (2011/12) fel a ganlyn:

- 45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd.
- 25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd.
- 5c y teithiwr y filltir – tâl atodol ar gyfer cludo teithwyr.
- 24c y filltir – beiciau modur preifat.
- 20c y filltir – beiciau.

DRAFT

**Lwfans Cynhaliaeth:** £28 y diwrnod - lwfans diwrnod ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan nas darperir yn y ffi dros nos (ni chaiff aelodau awdurdodau lleol ddefnyddio'r lwfans hwn wrth gynnal busnes swyddogol yn y sir).

- £150 Llundain dros nos.
- £120 Caerdydd dros nos.
- £95 rhywle arall dros nos.
- £25 aros dros nos gyda pherthnasau neu ffrindiau.

DRAFT

# 1. Cyflwyniad

1.1 Hwn yw pedwerydd adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a'r cyntaf a gyhoeddwyd o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. O dan y pwerau a ddarperir gan y Mesur mae'r Panel wedi datblygu cyfres newydd o Reoliadau (Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2012 ac sy'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru fel y nodir yn y Mesur yn Adrannau 142 a 147. Nodir y rheoliadau newydd yn llawn yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

1.2 Er bod y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad Blynyddol hwn ddod i rym o 1 Ebrill 2012, y dyddiad gweithredu ar gyfer penderfyniadau'r Panel fydd y diwrnod ar ôl cyfarfod blynyddol pob awdurdod. Yn achos awdurdodau lleol mae'n rhaid i'r lwfansau sy'n daladwy rhwng 1 Ebrill 2012 a'r diwrnod y cynhelir cyfarfod blynyddol yr awdurdod perthnasol fod yn unol â gofynion Adroddiad Blynyddol y Panel, dyddiedig Rhagfyr 2010, a'r Adroddiadau Atodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12.

1.3 O ran y Mesur ei hun:

- mae Adran 141 yn darparu ar gyfer parhad y Panel.
- mae Adran 142 yn nodi prif swyddogaethau'r Panel o ran taliadau y bydd yn ofynnol i awdurdod perthnasol eu gwneud i aelodau'r awdurdod neu y caiff ei awdurdodi i'w gwneud iddynt (isadran (1)), y materion perthnasol y gall y Panel eu penderfynu (isadran(2)), y symiau y gellir eu talu i aelodau neu y mae'n rhaid eu talu iddynt (isadran(3)), penderfynu na chaniateir i'r taliad a bennwyd gael ei dalu i fwy na chyfran benodedig o aelodau'r awdurdod (isadran(4))[4] a'r busnes swyddogol (isadran (10)) sy'n gwneud materion perthnasol yn gymwys ar gyfer taliadau.
- mae Adran 143 y nodi swyddogaethau'r Panel o ran pensiynau ar gyfer aelodau etholedig.
- mae Adran 144 yn diffinio “awdurdod perthnasol” (isadran(2)) ac yn rhoi diffiniadau cynhwysol o “aelod” (isadran(4)) ac “aelod cyfetholedig” (isadran (5)), ac
- mae Adrannau 145 – 147 yn nodi'r gofynion o ran adroddiadau blynyddol ac atodol cyntaf a dilynol y Panel parhaol.
- mae Adran 154 yn nodi'r trefniadau a wnaed i alluogi aelodau sy'n dymuno ymwrthod â'u hawl i gael taliadau (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) i wneud hynny.

1.4 Mae'r pwerau o dan Adran 142 i bennu taliadau i aelodau awdurdodau perthnasol wedi galluogi'r Panel i symud y tu hwnt i'w bwerau presennol sy'n gyfyngedig i bennu uchafsymiau ar gyfer taliadau i aelodau. Mae'r Panel wedi

[4] na all fod yn fwy na 50 y cant oni chafwyd caniatâd Gweinidogion Cymru.

penderfynu defnyddio'r pwerau hyn ac, ar gyfer y flwyddyn ddinesig sy'n dilyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2012, bennu faint yn union a delir i aelodau ac aelodau cyfetholedig. Nodir fframwaith y Panel ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol, sy'n cynnwys penderfyniadau penodol ynghylch taliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig yn yr awdurdodau perthnasol, yn y penodau sy'n dilyn.

1.5 i. Mae'r Mesur yn estyn cylch y Panel o ran cydnabyddiaeth ariannol aelodau yn y 22 o brif awdurdodau lleol y mae'r Panel wedi gwneud penderfyniadau ar eu cyfer ers 2008, sy'n cynnwys taliadau ar gyfer

- Cyfrifoldebau dinesig (Adran 142 (1) a (2)(a))[5].
- Absenoldeb teuluol (Adran 23 ac Adran 142 (2)(b)).
- Pwyllgorau Gwasanaethau Democratig (Adran 11 ac Adran 142 a (2)(b)).

ii. Mae Pennod 3 yn nodi cynigion y Panel o ran y materion hyn.

iii. Mae Adran 144 o'r Mesur yn estyn cylch gwaith y Panel i gynnwys:

- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol[6]
- Awdurdodau Tân ac Achub[7]
- Cynghorau tref a chymuned[8]

iv. Mae Penodau 4, 5 a 6 yn nodi cynigion y Panel o ran y materion hyn.

v. Nodir cynnig y Panel o ran pensiynau aelodau cyfetholedig (Adran 143 o'r Mesur) ym Mhennod 7.

1.6 i. Yn unol â bwriadau'r Panel a nodir yn ***'Symud Ymlaen: Cynigion y Tu Hwnt i 2010'***, cyfeirir at daliadau a wneir o'r flwyddyn ddinesig 2012/2013 i aelodau cynghorau yn y 22 o brif awdurdodau lleol fel cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y cyfrifoldeb sylfaenol neu'r cyfrifoldeb arbennig ychwanegol sydd ganddynt fel cynrychiolwyr cymunedau mewn llywodraeth leol fel *cyflog*. Mae'r Panel wedi penderfynu, o'r flwyddyn ddinesig 2012/2013, ddefnyddio *cyflog* hefyd i gyfeirio at y taliadau a wneir i'r aelodau canlynol o awdurdodau perthnasol fel cydnabyddiaeth am eu hamser, eu gwerth a'u cyfrifoldeb:

- Aelodau awdurdodau Parciau Cenedlaethol (gan gynnwys y rhai a benodir gan Lywodraeth Cymru).
- Aelodau awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

DRAFT

---

[5] yn flaenorol o dan Adrannau 22 a 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
[6] Sefydlwyd o dan Adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.
[7] Sefydlwyd o dan Adran 2 neu Adran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
[8] Sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Adran 88 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

ii. Nid yw hyn yn cynnwys taliadau i aelodau cyfetholedig a fydd yn cael ffi ddyddiol o 2012/13.

iii. Cedwir y term *lwfans* ar gyfer taliadau sy'n ad-dalu costau yr aed iddynt o reidrwydd gan gynghorwr ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a chan y rhai a benodir gan Lywodraeth Cymru I awdurdodau Parciau Cenedlaethol wrth gyflawni eu dyletswyddau (megis ar gyfer gofal, teithio a chynhaliaeth).

1.7 Am fod y Mesur bellach mewn grym, mae'r Rheoliadau[9] a oedd, ymhlith pethau eraill, yn cyfreithloni taliadau i aelodau (e.e. am 'ddyletswydd gymeradwy') ac a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gytuno bob blwyddyn ar 'Gynllun Lwfansau Aelodau' yn nodi'r taliadau blynyddol i aelodau wedi'u dirymu. Er mwyn bodloni'r gofynion cydymffurfio yn Adran 153 (2) a (3) o'r Mesur sy'n nodi swyddogaeth fonitro'r Panel, mae'r Panel wedi dod i'r casgliad y bydd pennu'r taliadau y gallant eu gwneud neu y mae'n rhaid iddynt eu gwneud i'w haelodau o dan Adran 142 (1-3) o fudd i'r awdurdodau perthnasol (yn ogystal ag i'r Panel). Mae'r Panel hefyd yn benodol ynglŷn â'r wybodaeth y mae angen i awdurdodau perthnasol ei rhoi am y cyfryw daliadau (Adran 150) er mwyn monitro cydymffurfiaeth â gofynion y Panel (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd) a nodir yn Adran 151 o'r Mesur. Mae Pennod 8 o'r adroddiad hwn yn nodi bwriadau'r Panel o ran rhaglen monitro a chydymffurfiaeth.

**Y Fframwaith Poblogaeth ar gyfer Penderfynu ar Grwpiau Awdurdodau**

1.8 i. Nid yw fframwaith y Panel wedi newid o ran grwpiau poblogaeth. Er bod y boblogaeth wedi tyfu ledled Cymru, nid yw'r amcangyfrifon canol blwyddyn diweddaraf[10] yn awgrymu ei bod wedi cynyddu ddigon i symud unrhyw gyngor lleol i grŵp poblogaeth uwch neu is ac mae dosbarthiad y cynghorau yn parhau'n ddigyfnewid, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Grŵp A: | (Poblogaethau dros 200,000)<br>Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe. |
| Grŵp B: | (Poblogaethau rhwng 100,000 a 200,000)<br>Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam. |

DRAFT

[9] Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007.

[10] Nifer amcangyfrifedig y trigolion yn ôl awdurdod lleol ym mis Mehefin 2009: y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Grŵp C: (Poblogaethau hyd at 100,000)
Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen.

ii. Cydnabyddir yn y penodau sy'n dilyn fod awdurdodau Parciau Cenedlaethol, awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru a chynghorau cymuned a thref yn gwasanaethu grwpiau poblogaeth o faint gwahanol i'r rhai a nodwyd uchod.

1.9 i. Yn yr un modd, nid yw fframwaith y Panel wedi newid o ran bandiau cyfrifoldeb a all fod yn daladwy, sy'n parhau yn achos awdurdodau lleol fel a ganlyn:

Band 1 Arweinydd a Dirprwy Arweinydd.

Band 2 Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol.

Band 3 Cadeirydd Pwyllgor (fel y'i diffinnir gan y Cyngor). Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf.

Band 4 Arweinydd grŵp gwleidyddol arall.

ii. Mae swyddi cyfrifoldeb mewn awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac mewn awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, ynghyd â swyddi cyfrifoldeb ychwanegol mewn awdurdodau lleol ar gyfer dyletswyddau dinesig a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratig, wedi'u hymgorffori yn y fframwaith fel y nodir yn y penodau sy'n dilyn.

**Tasg y Panel**

1.10 Mae penderfyniadau'r Panel ynghylch taliadau i aelodau wedi bod yn seiliedig ar gyfres o Egwyddorion ac maent yn parhau felly. Mae'r Panel yn credu'n gryf na ellir cefnogi cynrychiolaeth ddemocratig leol heb gost. Mae'n ofynnol i aelodau etholedig a chyfetholedig yr awdurdodau perthnasol sy'n rhan o gylch gwaith y Panel gyflawni nifer o swyddogaethau a rolau. Nid yn unig y maent yn cynrychioli buddiannau pobl leol ond maent hefyd yn ymgymryd â llywodraethu cymunedau lleol ac yn sicrhau bod trethdalwyr lleol yn cael gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhoi gwerth am arian drwy waith craffu effeithiol.

1.11 Mae'r rhain yn dasgau pwysig a sylweddol mewn cyfnod anodd i holl aelodau'r awdurdodau perthnasol sy'n rhan o gylch gwaith y Panel. Er mwyn sicrhau nad yw incwm personol (neu ddiffyg incwm personol) yn atal ystod amrywiol o bobl leol barod ac abl rhag ymgymryd â llywodraethu lleol, darperir taliadau cydnabyddiaeth a ariennir drwy arian cyhoeddus ar gyfer eu rôl etholedig a chyfetholedig, sydd hefyd yn wir yn achos y rhai a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Panel wedi manteisio ar y cyfle a ddarperir gan yr adroddiad blynyddol cyntaf hwn o dan y Mesur i ail-lunio, ym Mhennod 2, yr Egwyddorion sydd wrth wraidd ei benderfyniadau, yng ngoleuni profiad y Panel ac o gofio ei gylch gwaith estynedig.

1.12 Am eu bod yn cael eu talu o bwrs y wlad, mae'n rhaid i daliadau i aelodau am eu hamser, eu gwerth a'u cyfrifoldeb fod yn deg ac yn rhesymol yng nghyd-destun yr

DRAFT

hinsawdd economaidd bresennol (ac mae'n rhaid iddynt gael eu hystyried yn deg ac yn rhesymol).

1.13 Mae'r Panel wedi penderfynu cysylltu lefelau taliadau i aelodau awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru â lefelau taliadau a geir mewn cynghorau lleol.

1.14 Yn ei benderfyniadau blaenorol ynghylch taliadau i aelodau mae'r Panel wedi ceisio dilyn ei egwyddor o ‘derbynioldeb’ drwy bennu uchafsymiau nad ydynt mor fawr nes bod angen tynnu adnoddau sylweddol oddi wrth flaenoriaethau allweddol y cyngor. Fodd bynnag, mae Adran 142 (8) o'r Mesur yn fwy penodol ynglŷn ag ystyr ‘rhesymol’ wrth ddatgan “*wrth osod swm*[11] *... ... rhaid i'r Panel ystyried beth yn ei farn ef fydd effaith ariannol debygol gwneud hynny ar awdurdodau perthnasol*”. Mae'r Panel wedi wynebu her wirioneddol i fodloni gofyniad y Mesur o ran ‘effaith ariannol’ mewn cyd-destun lle mae galw mawr o hyd am wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau perthnasol, ond lle mae'r cyflenwad yn cael ei gyfyngu fwyfwy.

1.15 Fodd bynnag, mae'r Mesur yn darparu rhwystrau a gwrthbwysau i bwerau cynyddol y Panel:

- mae Adran 146 (6) a (7) ac Adran 147 (7) ac (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ymgynghori ar yr adroddiadau blynyddol cyntaf ac ar adroddiadau blynyddol dilynol.
- mae Adran 148 (1) yn nodi y dylai fod o leiaf wyth wythnos rhwng cyhoeddi adroddiad blynyddol neu atodol ar ei ffurf ddrafft a'i ffurf derfynol.
- mae Adran 149 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Panel i ailystyried unrhyw ddarpariaeth a wna.

1.16 Er bod y Panel wedi cynnal nifer o ymgyngoriadau yn y gorffennol i gasglu tystiolaeth, dyma'r tro cyntaf y bydd cynigion penodol ar gyfer fframwaith y Panel o daliadau i aelodau i'w gweithredu yn ystod y flwyddyn ddinesig nesaf ar gael yn gyffredinol i ymgynghori arnynt. Mae'r Panel yn rhagweld y bydd cryn dipyn o ddiddordeb yn y penderfyniadau a wna o dan ei bwerau newydd mewn cyfnod anodd i'r awdurdodau perthnasol newydd yng Nghymru a ffurfir yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2012.

DRAFT

[11] Y gall awdurdod perthnasol (Adran 144 (2)) ei dalu neu mae’n rhaid iddo ei dalu i aelod (Adran 144 (4-5)) o’r awdurdod (Adran 142 (3)), am faterion perthnasol (Adran 142 (2)), y bydd yn ofynnol i awdurdod perthnasol ei wneud neu y bydd wedi’i awdurdodi i’w wneud (Adran 142 (1)).

DRAFT

## 2. Fframwaith y Panel: Egwyddorion Cydnabyddiaeth Ariannol

### Cynnal Ymddiriedaeth a Hyder

2.1 Mae dinasyddion, yn gywir ddigon, yn disgwyl bod pawb sy'n dewis gwasanaethu mewn awdurdodau cyhoeddus yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd drwy **goleddu'r gwerthoedd a'r foeseg** sy'n ymhlyg yn y cyfryw wasanaeth cyhoeddus. Dengys ***Egwyddorion Cydnabyddiaeth Ariannol*** y cyfraniad a wna gwaith y Panel a'i Fframwaith tuag at gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

### Symlrwydd

2.2 Mae'r Fframwaith yn **glir ac yn hawdd ei ddeall**. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r Panel allu cyfleu ei flaenoriaethau yn effeithiol i bawb yr effeithir arnynt gan ei waith neu sydd â diddordeb ynddo.

### Cydnabyddiaeth Ariannol

2.3 Mae'r Fframwaith yn darparu ar gyfer **talu** aelodau awdurdodau cyhoeddus sy'n gyfrifol am wasanaethu eu cymunedau daearyddol neu eu cymunedau buddiant a nodwyd. Ni ddylai lefel y gydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i ymgymryd â swyddi nac i barhau â hwy. Mae'r Fframwaith yn rhoi taliad ychwanegol i'r rhai sy'n cael mwy o gyfrifoldeb.

### Amrywiaeth

2.4 Atgyfnerthir democratiaeth pan fydd aelodaeth awdurdodau cyhoeddus yn **adlewyrchu'n ddigonol** gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau a wasanaethir gan y cyfryw awdurdodau. Bydd y Panel yn ystyried pa gyfraniad y gall ei Fframwaith ei wneud i annog y rhai heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan ar lefel awdurdod lleol.

### Atebolrwydd

2.5 Mae gan y trethdalwr yr hawl i ddisgwyl cael **gwerth am arian** o arian cyhoeddus sydd wedi'i neilltuo i dalu'r rhai a etholir, neu a benodir, i wasanaethu er budd y cyhoedd. Mae'r Panel yn gweithio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth am weithgareddau eu haelodau o ran ategu gwasanaethau cyhoeddus. Yn benodol, mae'r Panel yn disgwyl i gynghorwyr pob awdurdod lleol lunio adroddiad blynyddol ar eu gweithgarwch sy'n ymwneud â'r cyngor..

### Tegwch

2.6 Fel prawf hanfodol o **degwch** y Fframwaith, mae'r Panel yn sicrhau bod ei benderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol i aelodau yn ystyried enillion blynyddol etholwyr Cymru. Bydd yn bosibl **cymhwyso'r Fframwaith yn gyson** i aelodau pob awdurdod cyhoeddus er mwyn sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg, yn fforddiadwy ac yn gyffredinol dderbyniol.

DRAFT

**Ansawdd**

2.7 Mae'r Panel yn cydnabod bod y cymysgedd cymhleth o ddyletswyddau llywodraethu, craffu a rheoleiddio sydd gan aelodau awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod gyfranogi at y gwaith o wella ansawdd yn barhaus. **Mae'r Panel yn disgwyl i bob aelod** o awdurdod lleol ymgymryd â'r cyfryw gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad personol ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'n briodol y dyletswyddau y cânt gydnabyddiaeth ariannol amdanynt.

**Tryloywder**

2.8 Mae sicrhau tryloywder cydnabyddiaeth ariannol aelodau **er budd y cyhoedd.** Mae rhai aelodau yn cael lefelau ychwanegol o gydnabyddiaeth ariannol am eu bod wedi'u hethol, neu eu penodi, i fwy nag un corff cyhoeddus. Mae'r Fframwaith yn fodd i sicrhau bod gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol yr holl aelodau ar gael yn hawdd i'r cyhoedd.

DRAFT

# 3. Taliadau i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Lleol

DRAFT

## Cefndir

3.1 Mae penderfyniad y Panel i bennu lefelau taliadau gwirioneddol ar gyfer cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau yn deillio o sylwadau a gafwyd drwy ei ymgyngoriadau blaenorol, wedi'u hatgyfnerthu gan adborth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fel y dengys ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2010, mae aelodau etholedig ledled Cymru wedi dweud yn gyson wrth y Panel eu bod o blaid pennu taliadau. Mae'r Panel yn dal i bryderu y gall pwysau ar awdurdodau lleol yn yr hinsawdd economaidd bresennol i bennu cydnabyddiaeth ariannol aelodau ar lefel artiffisial o isel arwain at '*ras i'r gwaelod*' a allai fod yn niweidiol. Byddai'r cyfryw broses yn tanseilio'n llwyr egwyddor y Panel o sicrhau cysondeb o ran cydnabyddiaeth ariannol aelodau.

3.2 Ategwyd y safbwynt hwn gan ddadansoddiad y Panel o ganlyniadau penderfyniadau cynghorau o ran cydnabyddiaeth ariannol aelodau ers sefydlu'r Panel yn 2008. Yn ystod y tair blynedd ar ôl 2008, pan oedd pwerau'r Panel wedi'u cyfyngu i bennu uchafsymiau taliadau, dewisodd y rhan fwyaf o gynghorau (a oedd wedi cynyddu i 15 o'r 22 o gynghorau erbyn 2010) beidio â gweithredu uchafsymiau'r Panel:[12]

- yn 2009/2010, ni thalodd 10 o'r 22 o gynghorau yr uchafswm Lwfans Sylfaenol ar y pryd, sef £13,356 y flwyddyn, ac erbyn 2010/2011, roedd nifer y cynghorau nad oeddent yn talu'r uchafswm o £13,868 y flwyddyn wedi cynyddu i 15. Y Lwfans Sylfaenol cyfartalog a dalwyd yn y 15 o gynghorau hyn oedd £12,837 y flwyddyn.
- yn yr un modd, yn 2009/10, ni thalodd 14 o'r 22 o gynghorau yr uchafswm Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig (LCAau) dynodedig ar y pryd. Er nad yw'r newidiadau sylweddol a wnaed i'r fframwaith LCA gan y Panel yn ei gwneud yn bosibl i gymharu tebyg at ei debyg, mae'r modd y mae cynghorau wedi mynd ati i weithredu penderfyniadau LCA y Panel ar gyfer 2010/2011 yn dangos patrwm tebyg o ran peidio â mabwysiadu'r uchafsymiau ar draws y Bandiau LCA..
- mae'n amlwg bod yr amrywiad yn lefelau'r LCA a dalwyd yn amrywio yn llawer mwy na'r amrywiad yn lefelau'r Lwfans Sylfaenol a dalwyd. Mae'n werth nodi na fabwysiadodd cynghorau a oedd yn gweithredu trefniadau amgen yr uchafsymiau ar gyfer rolau arwain a oedd yn berthnasol i gynghorau a oedd yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth er i'r Panel benderfynu, ar gyfer 2010, nad oedd "*unrhyw gyfiawnhad parhaus dros wahanol lefelau'r LCA ar gyfer arweinwyr ac aelodau gweithrediaeth a chadeiryddion ac aelodau bwrdd*".

---

[12] *Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol*: mae Adroddiad Blynyddol 2010, Pennod 5 ac Atodlen 1 a 2 yn cyflwno adolygiad o'r modd y mae cynghorau wedi gweithredu penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2010/11.

- mae'r amrywiad mewn taliadau ar gyfer aelodau cyfetholedig mor fawr fel bod y Panel wedi penderfynu mabwysiadu dull gweithredu gwahanol o ran eu cydnabyddiaeth ariannol.

3.3 Dangosodd gwaith dadansoddi ar gynlluniau cynghorau ar gyfer 2010/11 fod llai o gynghorau wedi gweithredu uchafswm y Panel o ran yr Arweinydd (5 cyngor) a'r Dirprwy Arweinydd (5 cyngor) nag oedd wedi gweithredu'r uchafswm Lwfans Sylfaenol (7 cyngor) a bod yr un nifer wedi gweithredu'r uchafswm ar gyfer aelodau'r Cabinet/Bwrdd (7 cyngor). Roedd mwy o gynghorau wedi gweithredu'r uchafswm taliad a bennwyd gan y Panel ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu (10 cyngor), Cadeiryddion Pwyllgorau Cynllunio (9 cyngor), Cadeiryddion Pwyllgorau Trwyddedu (8 cyngor) a Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio (7 cyngor) nag oedd wedi gweithredu'r uchafsymiau a bennwyd gan y Panel ar gyfer rolau arwain, ond nid oedd y nifer yn llawer gwell na'r rhai a oedd yn gweithredu'r uchafswm y Lwfans Sylfaenol ac nid oedd hyd yn oed yn agos at hanner y cynghorau yng Nghymru.

3.4 Yn unol â'i egwyddorion o symlrwydd ac atebolrwydd, mae'r Panel wedi cysylltu'r Lwfans Sylfaenol a lefel LCAau ag enillion amser llawn gros blynyddol canolrifol etholwyr Cymru[13]. Gan adlewyrchu ymrwymiad amser disgwyliedig lleiaf 'cynghorwyr mainc gefn', pennwyd y Lwfans Sylfaenol ar gyfer 2010/11 yn dair rhan o bump o Gyflog Gros Canolrifol Cymru Gyfan ar gyfer cyflogeion amser llawn wedi'i feincnodi ar ei lefel yn 2009. Roedd LCAau ar gyfer rolau arwain a rolau gweithredol, y nododd y dystiolaeth eu bod yn gofyn am ymrwymiad amser llawn, yn seiliedig ar luosyddion o'r cyflog canolrifol wedi'u haddasu i faint poblogaeth gymharol cynghorau, ac LCAau ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau wedi'u cyfartalu ledled Cymru i adlewyrchu eu natur swyddogaethol. Ond am fod y rhan fwyaf o gynghorau wedi mabwysiadu lefelau o lwfansau cynghorwyr sy'n is nag uchafsymiau'r Panel, mae'r cysylltiad ag enillion gros amser llawn canolrifol etholwyr Cymru bellach yn fwy tenau, gan danseilio egwyddorion cydnabyddiaeth ariannol y Panel.

3.5 Mae'n amlwg bod penderfyniadau unigol y rhan fwyaf o gynghorau i fabwysiadu llai nag uchafsymiau'r Panel yn eu cynlluniau lwfansau cynghorwyr eu hunain ar gyfer 2010/11 wedi atal y Panel rhag datblygu fframwaith cydnabyddiaeth ariannol cenedlaethol cyson. Nid yw penderfyniadau cynghorau ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau o dan y trefniadau presennol ar gyfer 2011/2012 ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn[14], ond ni ragwelir y bydd llawer o gynghorau yn mabwysiadu uchafsymiau'r Panel mewn blwyddyn lle rydym yn gweld setliadau ariannol llai a chostau cynyddol pan nad ydynt wedi gwneud hynny yn gynharach. Ym marn y Panel mae hyn yn tanseilio'r gwerth ychwanegol a bennwyd gan y Panel i gynghorwyr a etholwyd yn ddemocrataidd i ymgymryd â chyfrifoldebau cynrychioli'r gymuned ac arwain gweithgarwch llywodraethu lleol a chraffu arno: lefel o gydnabyddiaeth ariannol sy'n cydnabod yr amser a dreulir ar y tasgau sylweddol hyn a'r amser ychwanegol y mae llawer yn ei neilltuo fel gwasanaeth cyhoeddus di-dâl. Y

---

[13] Enillion gros canolrifol pob cyflogai amser llawn sy'n byw yng Nghymru, fel y'u cofnodwyd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)

[14] Fel arfer mae Cynllun Lwfansau Cynghorwyr ar gael erbyn diwedd mis Mehefin yn dilyn Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol cynghorau. Ar ôl ymynghori ar y drafft hwn rhagwelir y caiff fersiwn terfynol Adroddiad Blynyddol 2011 ei ddiweddaru i gynnwys tystiolaeth gan gynlluniau lwfansau cynghorau ar gyfer 2011/2012.



DRAFT

gwir amdani o hyd yw y gall cynghorwyr unigol ymwrthod â'u hawl i gael eu cyflogau, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, os dymunant, ond mae'r Panel yn credu'n gryf y gallai caniatáu i'r trefniadau presennol barhau, lle mae cynghorau yn cytuno'n unigol ar amrywiaeth o daliadau llai i bob un o'u cynghorwyr, amharu ar ganfyddiad etholwyr o werth rôl y cynghorydd heddiw a'r gwaith o recriwtio a chadw cynghorwyr yn y dyfodol.

3.6 O ganlyniad, mae'r Panel wedi dod i'r casgliad na chaiff fframwaith cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr cenedlaethol ei roi ar waith yn ystod y tymor dinesig nesaf (2012-2016) oni bai ei fod yn defnyddio'r pwerau a gafwyd o dan y Mesur a phennu lefel wirioneddol Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau sydd i'w talu i gynghorwyr newydd eu hethol, pwyllgorau gweithredol newydd eu ffurfio, cadeiryddion pwyllgorau newydd eu penodi a phenaethiaid dinesig yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2012.

**Pennu Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau yn 2012/2013**

3.7 Mae penderfynu ar ba lefel y dylid pennu cyflogau aelodau wedi bod yn her wirioneddol i'r Panel. Mae'r Panel wedi bod yn amharod iawn i wanhau'r cysylltiad y mae wedi'i greu ag enillion gros blynyddol canolrifol etholwyr Cymru ond mae'n cydnabod, wrth bennu cydnabyddiaeth ariannol aelodau ar gyfer 2011/2012, nad ydynt bellach yn cyd-fynd yn fanwl gywir. Y rheswm am hyn yw bod enillion gros blynyddol canolrifol yr holl gyflogeion amser llawn sy'n byw yng Nghymru wedi cynyddu 1.6% rhwng 2009 a 2010 a chynyddodd yr enillion gros canolrifol yng Nghymru o £23,114 (meincnod 2009 ar gyfer Lwfans Sylfaenol o £13,868 yn 2010/11) i £23,494. Pe na bai'r Panel wedi penderfynu rhewi cydnabyddiaeth ariannol pob cynghorydd yn 2011/12, byddai uchafswm Lwfans Sylfaenol wedi'i gysoni wedi codi i £14,096, gyda chodiadau cymesur mewn LCAau yn unol â'r lluosyddion a ddewiswyd.

3.8 Ni chynyddwyd uchafsymiau Lwfans Sylfaenol na LCAau yn unol ag enillion canolrifol am fod y Panel o'r farn, wrth i 2010 dynnu at ei therfyn a'r codiad o 1.6% yn enillion gros canolrifol Cymru ar gyfer 2010 ddod i'r amlwg, y byddai unrhyw gynnydd yng nghydnabyddiaeth ariannol aelodau yn 2011/12, waeth pa mor fach, yn amhriodol tra bod effeithiau llawn pwysau costau yn y sector cyhoeddus yn dal yn anhysbys. At hynny, nododd y Panel yn glir ei bod yn debyg na fyddai unrhyw newidiadau i sicrhau mwy o gysondeb rhwng cydnabyddiaeth ariannol aelodau ag enillion gros canolrifol etholwyr Cymru yn cael eu derbyn gan y cyhoedd na'r cynghorwyr eu hunain hyd yn oed fel rhai ‘teg’ mewn blwyddyn a oedd yn debygol o weld incymau personol etholwyr a gwasanaethau'r cyngor, y mae llawer o etholwyr yn dibynnu arnynt, o dan bwysau difrifol.

3.9 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid yw'n hysbys eto a oes unrhyw un o'r cynghorau sy'n talu llai nag uchafsymiau'r Panel wedi manteisio ar y cyfle yn eu penderfyniadau ar gyfer 2011/12 i ‘ddal i fyny’. Yr hyn a wyddom yw bod sawl cyngor yn ystyried lleihau'r Lwfans Sylfaenol a LCAau o ddifrif lle mae cydnabyddiaeth ariannol aelodau eisoes yn is nag uchafswm y Panel. Mae posibilrwydd y bydd y penderfyniadau a wneir gan gynghorau yn tanseilio'r broses gysoni rhwng cydnabyddiaeth ariannol aelodau ac enillion gros canolrifol yng Nghymru i'r fath raddau fel y bydd y cysylltiad rhyngddynt yn anweladwy ac anghynaliadwy.

DRAFT

3.10 Fodd bynnag, mae'r Panel wedi dod i'r casgliad na ellir osgoi gostyngiadau yng nghydnabyddiaeth ariannol aelodau, p'un a ydynt wedi'u cynllunio neu'n rhai canlyniadol, yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Ond am fod y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru yn talu llai nag uchafsymiau'r Panel i aelodau, pe bai'r Panel yn pennu Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau ar gyfer 2012/13 ar lefel yr uchafsymiau presennol a feincnodwyd yn erbyn enillion gros canolrifol Cymru ar gyfer 2009, byddai'n golygu y byddai:

- 872 (69%) o gynghorwyr ledled Cymru yn manteisio ar godiadau yn y Cyflog Sylfaenol o hyd at 18%, y rhan fwyaf (57%) rhwng 5%-10%.
- 13 o 22 o Arweinwyr (59%) yn manteisio ar godiadau yn yr Uwch Gyflog[15] o hyd at 22%, 13% ar gyfartaledd[16].
- 12 o 19 o Ddirprwy Arweinwyr (63%) yn manteisio ar godiadau yn yr Uwch Gyflog o hyd at 25%, 14% ar gyfartaledd[17].
- 111 o 208 o Aelodau Gweithredol (53%) yn manteisio ar godiadau yn yr Uwch Gyflog o hyd at 17%, 6% ar gyfartaledd; 45 arall o 208 o Aelodau Gweithredol (22%) yn manteisio ar godiad o 31% ar gyfartaledd[18].
- 153 o 213 o Gadeiryddion Pwyllgorau ar Arweinwyr Grŵp yr Wrthblaid (72%) yn manteisio ar godiadau yn yr Uwch Gyflog o hyd at 36%, 12% ar gyfartaledd.

3.11 O safbwynt Cymru Gyfan byddai angen dod o hyd i £1.87m arall[19] i ariannu cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr a byddai angen i sawl cyngor ddod o hyd i swm blynyddol ychwanegol o hyd at £320,000. Dim ond chwe chyngor sydd eisoes yn talu uchafsymiau'r Panel yn 2010/11 sy'n golygu na fyddai angen iddynt ddod o hyd i unrhyw symiau ychwanegol. Am fod yr effaith ariannol a gaiff pennu cyflogau aelodau yn 2012/13 ar sail uchafsymiau'r Panel ar gyfer 2010/11 ar gynghorau mor fawr ac am na fyddai'r effaith ariannol yn dderbyniol i gynghorau ac am na fyddai'r cyhoedd yn ei deall, mae'n dilyn, os bydd y Panel yn pennu union lefel cyflogau aelodau, fod angen pennu'r lefelau yn llai na'r uchafsymiau a bennwyd gan y Panel ar gyfer 2011/12.

3.12 Mae'r Panel yn cydnabod y bydd unrhyw ostyngiad pellach yng nghyflogau aelodau yn tanseilio'r broses gysoni rhwng Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau ac enillion gros canolrifol yng Nghymru ymhellach. Mae'r graddau y mae'r broses gysoni wedi'i thanseilio yn dibynnu i raddau helaeth ar newidiadau yn incwm cyflogeion amser llawn sy'n byw yng Nghymru. Effeithir arni hefyd gan unrhyw ddiffyg eglurder parhaus o ran effeithiau llawn pwysau tuag i lawr ar gyllidebau cynghorau. Ond bydd y gwahaniaeth rhwng cyflogau aelodau ac enillion gros canolrifol yng Nghymru yn agored ac yn dryloyw ac fe'i cyhoeddir yn adroddiadau blynyddol y Panel. Ni ellir

DRAFT

[15] Mae Uwch Gyflog yn cynnwys Cyflog Sylfaenol.
[16] 45% yw'r cynnydd cyfartalog mewn cynghorau heb drefniadau amgen – Merthyr Tudful a Phowys – a hefyd Gwynedd a fydd yn newid i drefniadau gweithredol yn 2012/13 o dan ofynion y Mesur.
[17] Gwynedd 43% a Merthyr Tudful 30%; ni thalodd Powys Ddirprwy Arweinydd yn 2010/2011.
[18] Mae Wrecsam wedi'i gynnwys gyda Gwynedd, Powys a Merthyr Tudful yn y 45 o aelodau gweithredol am ei fod yn talu pob LCA ar yr un lefel, ac eithrio'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd.
[19] Gan gynnwys costau YG cyflogwr ychwanegol.

dweud am faint o amser y bydd y sefyllfa economaidd bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i gadw lefelau cyflogau aelodau islaw enillion gros canolrifol yng Nghymru. Gan gofio, drwy benderfyniad y rhan fwyaf o gynghorau ac yn groes i benderfyniad y Panel, nad yw lefelau cyflogau aelodau wedi'u cysoni ag enillion gros canolrifol yng Nghymru, bydd y Panel yn parhau i ystyried yn fanwl yr hyn a all fod yn effaith ariannol sylweddol ar gynghorau a chynghorwyr ac ar ganfyddiadau'r cyhoedd o fforddiadwyedd a derbynioldeb, cyn y bydd yn ystyried ei bod y briodol adfer y broses gysoni yn llawn.

3.13 Mae'r Panel wedi dod i'r casgliad bod i ostyngiad cynlluniedig yng nghyflogau aelodau a bennir ym mhob un o awdurdodau lleol Cymru y fantais o fod yn drefnedig ac yn drefnus a'i fod yn well nag unrhyw gwymp rhydd yn lwfansau aelodau a all ddigwydd o dan bwysau lleol yn y trefniadau presennol wrth i'r etholiadau llywodraeth leol nesáu yn 2012. Mae'r ffaith yr etholir cynghorau newydd yn 2012 yn golygu ei bod yn amserol cyflwyno cyflog penodedig yn 2012, er yn ôl cyfraddau llai. Wrth wraidd y penderfyniad hwn gan y Panel mae barn gref na all unrhyw gynghorydd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ac sy'n ceisio cael ei ethol gymryd parhad incwm yn ganiataol - p'un a yw'n gynghorydd mainc gefn neu'n ddeiliad swydd mewn cyngor.

3.14 O gofio'r gwahaniaeth mawr rhwng y Cyflogau Sylfaenol a'r LCAau y cytunwyd arnynt gan gynghorau lleol ar gyfer 2010/2011, a'r graddau amrywiol y mae lefelau cydnabyddiaeth ariannol aelodau y cytunwyd arnynt gan gynghorau yn is nag uchafsymiau'r Panel, mae'r Panel felly wedi penderfynu bod angen pennu Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau sy'n daladwy yn dilyn etholiadau dinesig 2012 ar lefel is sy'n cwtogi hyd yr eithaf ar nifer y cynghorau a all wynebu, o ganlyniad i benderfyniadau'r Panel, gynnydd yng nghostau cydnabyddiaeth ariannol aelodau a chynnydd canlyniadol yn y gydnabyddiaeth ariannol a delir i'w cynghorwyr. Gan fodelu gwahanol ostyngiadau canrannol ar gyfer yr uchafsymiau a bennwyd ganddo ar gyfer 2010/11, mae'r Panel wedi dod i'r casgliad na fydd gostyngiad o 10% yn Uwch Gyflog deiliaid swyddi Band 1, Band 2, Band 3 a Band 4, a gostyngiad o 5% yng Nghyflog Sylfaenol pob cynghorydd yn arwain at fwy o wariant yn achos y rhan fwyaf o gynghorau, yn enwedig o'u cyfuno â "*rheoli mwy gyda llai*" (gweler paragraff 3.16). I'r gwrthwyneb, yn ogystal â lleihau cyfanswm y gost yn sylweddol ledled Cymru, bydd yn arwain at arbedion cost ar gyfer llawer o gynghorau a sicrhau na fydd odid ddim codiadau cost ar gyfer nifer fach o gynghorau. Bydd rhai cynghorwyr yn wynebu gostyngiadau yn eu hincwm personol gan ddibynnu ar yr union Gyflog Sylfaenol a LCA y cytunwyd arnynt yn eu cyngor ar gyfer 2010/11, ond, yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd incwm personol rhai yn cynyddu. Yr effaith ariannol gyffredinol fydd llai o wariant ar gydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr ledled Cymru ac o ganlyniad arbedir dros £1 miliwn i bwrs y wlad.

3.15 Mae'r effaith ariannol pennu Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau yn seiliedig ar ostyngiad o 5% a 10% o uchafsymiau'r Panel ar gyfer 2010/11 ar gynghorwyr fel a ganlyn:

- ar Gyflog Sylfaenol penodedig o £13,175 ar gyfer 2012/13, bydd Cyflog Sylfaenol blynyddol cynghorydd mewn 12 o'r 22 o gynghorau sir yn cynyddu rhwng £1,833 (yng Nghaerdydd) a £145 (Caerffili, Casnewydd,

DRAFT

Blaenau Gwent a Sir Ddinbych) a bydd yn lleihau yn y 10 cyngor sir arall rhwng £693 a £298.

- ar Uwch Gyflog penodedig a leihawyd 10% ar gyfer 2012/13 (ac wedi'i wahaniaethu ar sail grwpiau poblogaeth), bydd cyflogau Arweinwyr yn gostwng mewn wyth cyngor rhwng £5,085 a £127 o'r lefel a dalwyd yn 2010/11. Bydd cyflogau Arweinwyr yn cynyddu mewn 11 o'r 14 o gynghorau eraill rhwng £7,564 a £119. Ym Merthyr Tudful a Phowys (arferai'r ddau gyngor hyn weithredu o dan Drefniadau Amgen ond ni wnaethant addasu i fand uwch yn 2010 pan wnaethant newid i fodel Arweinydd a Chabinet) a hefyd yng Ngwynedd (a fydd yn newid o Drefniadau Amgen yn 2012/13) bydd y codiadau yn llawer mwy, hyd at £23,633.
- ceir codiadau a gostyngiadau tebyg ar gyfer cyflogau Dirprwy Arweinwyr yn y 19 o gynghorau a dalodd gyflog Band 2 yn 2010/11.
- ar Uwch Gyflog penodedig a leihawyd 10% ar gyfer 2012/13, ac wedi'i wahaniaethu ar sail grwpiau poblogaeth, caiff cyflogau Gweithredol eu lleihau rhwng £3,051 a £332 o'r lefel a dalwyd yn 2010/11 mewn 15 o gynghorau, a'u cynyddu rhwng £8,901 a £74 yn y saith cyngor arall.
- ar Uwch Gyflog penodedig a leihawyd 10% ar gyfer 2012/13 caiff cyflogau Band 3 eu lleihau rhwng £2,207 a £493 o'r lefelau a dalwyd yn 2010/11 mewn 12 cyngor a'u cynyddu rhwng £4,082 a £41 yn y 10 cyngor arall.
- dim ond 12 o'r 22 o gynghorau a dalodd gyflog Band 4 yn 2010/11. O'r rheini, byddai saith yn gweld gostyngiad yn y symiau a delir yn 2012/13 o hyd at £1,500 a byddai'r pump arall yn gweld cynnydd o hyd at £1,000

**Uwch Gyflog: Rheoli 'Mwy gyda Llai'**

3.16 Un o'r ffyrdd mae awdurdodau gwasanaethau cyhoeddus wedi ymateb i gyfyngiadau ariannol yw rheoli gwasanaethau yn fwy effeithlon drwy wneud 'mwy gyda llai'. Mae'r Panel o'r farn bod ethol cynghorau newydd yn 2012 yn gyfle i adlewyrchu'r athroniaeth hon o reoli 'mwy gyda llai' drwy bennu nifer y deiliaid swyddi arwain a swyddi gweithredol y gellir talu cydnabyddiaeth ariannol iddynt.

3.17 Dengys y dadansoddiad a wnaed gan y Panel amrywiadau sylweddol yn nifer yr aelodau cabinet ar hyn o bryd (Bandiau 1 a 2) a chadeiryddion gweithredol ac arweinwyr yr wrthblaid (Bandiau 3 a 4) - rhwng cynghorau yn yr un grŵp poblogaeth a rhwng cynghorau mewn gwahanol grwpiau poblogaeth - ac ni fu'n bosibl nodi'r rheswm am hyn. Mae'r Panel o'r farn y dylai uwch gynghorwyr ledled Cymru gael eu herio i wneud 'mwy gyda llai' yn y cynghorau newydd a ffurfir yn 2012/13 ac felly mae wedi penderfynu y cyfyngir ar nifer y deiliaid swyddi ag uwch gyflogau ym mhob cyngor i uchafswm o:

- 17 mewn cynghorau Grŵp A.
- 16 mewn cynghorau Grŵp B.
- 15 mewn cynghorau Grŵp C

DRAFT

Gall cynghorau ddosbarthu deiliaid swyddi cabinet a swyddi gweithredol rhwng y bandiau cyfrifoldeb fel y gwelant yn dda, ond ni ddylid mynd dros uchafswm y swyddi y telir cydnabyddiaeth ariannol ar eu cyfer, ac eithrio ar gyfer unrhyw gyfnod lle mae deiliad swydd dros dro yn cymryd lle deiliad swydd a benodwyd oherwydd absenoldeb teuluol.

**Uwch Gyflogau: Pwyllgor Gwasanaethau Democratig**

3.18 Ar ôl adolygu cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Gwasanaethau Democratig sydd newydd eu sefydlu gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Panel wedi penderfynu bod amser, gwerth a chyfrifoldebau'r Cadeirydd yn debyg i rai cadeiryddion gweithredol Band 3 pan y'u telir.

**Uwch Gyflogau: Penaethiaid Dinesig**

3.19 Mae taliadau i benaethiaid dinesig bellach yn rhan o gylch gwaith y Panel. Cynhaliodd y Panel gyfarfod o grŵp arbenigol o swyddogion dinesig i roi cyngor i'r Panel ar gyfrifoldebau dinesig a chydnabyddiaeth ariannol penaethiaid dinesig. Defnyddiwyd canlyniadau'r cyfarfod gan y Panel i gynnal arolwg o bob un o'r 22 o brif gynghorau yn ystod mis Ebrill 2011. Cafwyd 16 o ymatebion ac roedd y wybodaeth yn yr ymatebion hyn o gymorth mawr i'r Panel wrth iddo asesu cylch gwaith a chyfrifoldebau'r rôl ddinesig ac wrth benderfynu ar y ffordd orau o roi cydnabyddiaeth am y rôl ddinesig:

- cadarnhaodd y dystiolaeth fod aelodau sydd â chyfrifoldebau dinesig yn cyflawni uwch rolau mewn cynghorau, ond bod y rolau hyn yn wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Mae rôl y pennaeth dinesig yn cwmpasu cyfrifoldeb arwain 'dinesydd cyntaf' pendant wrth gynrychioli'r cyngor i amrywiaeth eang o sefydliadau mewn cymdeithas sifil a'i bod yn gofyn i ddeiliad y swydd osod esiampl o ddinasyddiaeth dda a'i hyrwyddo.
- mae cynghorwyr a benodir i arweinyddiaeth ddinesig yn swydd Maer/Dirprwy Faer neu Gadeirydd/Dirprwy Gadeirydd Cyngor yn cadw eu dyletswyddau ward i'w hetholwyr yn ystod y flwyddyn y maent yn gwasanaethu fel penaethiaid dinesig.
- mae llwyth gwaith a chyfrifoldeb pennaeth dinesig (a'r dirprwy bennaeth dinesig) yn ymwneud i raddau helaeth â maint y cyngor a'r gymuned a wasanaethir ganddo. Felly, mae'n briodol defnyddio'r grwpiau poblogaeth wrth bennu lefel taliadau i benaethiaid dinesig.
- mae'r lwfans dinesig a delir yn uniongyrchol i'r penaethiaid dinesig yn amrywio'n fawr. Bwriedir i'r lwfans dinesig dalu lwfans i gadeirydd ac is-gadeirydd cyngor sy'n rhesymol yn ei farn ef er mwyn talu costau'r swyddi hynny [a3(5) ac a5(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972].
- at hynny, fel arfer gall penaethiaid dinesig fanteisio ar gyllideb lletygarwch ar wahân a reolir gan swyddfa cymorth dinesig.
- yn gyffredinol, nodwyd na fyddai'n bosibl bodloni'r gofyniad o ran arweinyddiaeth a chynrychiolaeth ddinesig heb gymorth dirprwy bennaeth dinesig penodedig sy'n gyfrifol am raglen o ddigwyddiadau ar wahân.

3.20 Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd mae'r Panel wedi penderfynu y gellir cyflawni cyfrifoldebau pennaeth dinesig a dirprwy bennaeth dinesig o fewn ei ddisgwyliad o ofyniad amser deiliad swydd weithredol Band 3 ond wedi'i wahaniaethu ar sail grwpiau poblogaeth. Mae'r Uwch Gyflog a delir i ddeiliaid swyddi Band 3 yn seiliedig ar ymrwymiad o bedwar diwrnod yr wythnos o ran uwch gyfrifoldeb ychwanegol swydd benodedig ac yn cynnwys cyfrifoldeb sylfaenol pob cynghorydd am ddyletswyddau ward er bod y Panel yn derbyn bod llawer o ddeiliaid swyddi dinesig yn neilltuo mwy o amser na phedwar diwrnod yr wythnos ar gyfer dyletswyddau dinesig.

3.21 Gan ystyried amser, gwerth ac uwch gyfrifoldebau penaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig, mae'r Panel wedi penderfynu ar gyfer 2012/2013:

- y telir Uwch Gyflog i'r pennaeth dinesig (Maer/Cadeirydd cyngor) sy'n seiliedig ar 45% o'r Uwch Gyflog Band 1 perthnasol, fel a ganlyn:
  - Grŵp A £23,715.
  - Grŵp B £21,375.
  - Grŵp C £19,035.
- y telir Uwch Gyflog i'r pennaeth dinesig (Dirprwy Faer/Dirprwy Gadeirydd cyngor) sy'n seiliedig ar 35% o'r Uwch Gyflog Band 1 perthnasol, fel a ganlyn:
  - Grŵp A £18,445.
  - Grŵp B £16,625.
  - Grŵp C £14,805.

3.22 Mae'r Panel yn cynnig, ar gyfer 2012/13, y telir y Cyflogau Sylfaenol a'r Uwch Gyflogau a nodir isod i aelodau etholedig awdurdodau lleol:

| | **Grŵp A** | **Grŵp B** | **Grŵp C** |
|---|---|---|---|
| **Cyflog Sylfaenol** | £13,175 | £13,175 | £13,175 |
| **Uwch Gyflogau** | | | |
| **Band 1** | | | |
| Arweinydd | £52,700 | £47,500 | £42,300 |
| Dirprwy Arweinydd | £37,100 | £33,460 | £29,820 |
| **Band 2** | | | |
| Swydd Weithredol | £31,900 | £28,780 | £25,660 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Band 3** [20] | | | |
| Cadeiryddion Pwyllgorau<br>Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf[21] | £21,910 | £21,910 | £21,910 |
| Pennaeth Dinesig<br>(Maer/Cadeirydd Cyngor) | £23,715 | £21,375 | £19,035 |
| **Band 4** | | | |
| Arweinydd grwpiau gwleidyddol eraill | £16,920 | £16,920 | £16,920 |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig | £18,445 | £16,625 | £14,805 |

**Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau: Materion eraill**

3.23 Mae'r Panel yn nodi'r canlynol:

- telir y Cyflog Sylfaenol am y cyfrifoldeb sylfaenol o gynrychioli'r gymuned a chyfranogi yn swyddogaeth craffu a rheoleiddio neu swyddogaeth gysylltiedig llywodraethu lleol am gyfnod o amser sy'n cyfateb i dri diwrnod yr wythnos, ac mae'n parhau'n daladwy yn ystod cyfnodau o absenoldeb teuluol fel y'i diffinnir o dan y Mesur. Mae unrhyw ymrwymiad amser y tu hwnt i dri diwrnod yn gyfraniad gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.
- ni ddylid talu mwy nag un Uwch Gyflog i gynghorydd.
- telir pob Uwch Gyflog gan gynnwys y Cyflog Sylfaenol.
- mae cydnabyddiaeth ariannol Arweinwyr Cynghorau ac Aelodau Gweithredol (Uwch Gyflogau Band 1 a 2) yn seiliedig ar dybiaeth bod y rolau hyn yn gofyn am ymrwymiad amser llawn gan ddeiliad y swydd.
- telir Uwch Gyflogau Band 3 a 4 yn seiliedig ar ymrwymiad rhan-amser deiliaid y swydd.
- o gofio bod y Panel wedi penderfynu bod cydnabyddiaeth ariannol deiliaid swyddi Band 1 a 2 yn seiliedig ar ddisgwyliad y Panel bod y cyfryw swyddi yn gofyn am ymrwymiad amser llawn, dylai deiliaid swyddi ystyried yn ofalus iawn a allant gyflawni unrhyw gyfrifoldebau cyhoeddus pellach a all fod ganddynt yn rhywle arall, gan gynnwys cynrychioli buddiannau eu hawdurdod fel aelodau o awdurdodau Parciau Cenedlaethol/awdurdodau tân ac achub.
- ni ddylai unrhyw aelod sy'n cael Uwch Gyflog Band 1 neu Fand 2 gael unrhyw gyflog ychwanegol am gynrychioli ei gyngor ar awdurdod Parc Cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub.
- polisi'r Panel yw bod yn rhaid i'r datganiad taliadau cyhoeddus blynyddol a wneir i aelodau awdurdodau lleol gynnwys cydnabyddiaeth ariannol o'r holl enwebiadau a phenodiadau gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan aelodau

[20] Fel ffordd o gyfartalu cyflogau Band 3 ledled Cymru, dewisir swydd Arweinydd Grŵp B fel y dangosydd sy'n adlewyrchu'r rhan fwyaf o gynghorau Cymru a'r cymysgedd trefol/gwledig nodweddiadol.
[21] Gweler Rheoliadau'r Panel yn Atodiad 1 am ddiffiniad o grŵp yr wrthblaid fwyaf (Band 3) a grŵp gwleidyddol arall (Band 4).

DRAFT

awdurdodau lleol. Mae'r Panel yn bwriadu tynnu sylw'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau at ei safbwynt ar y mater hwn.

3.24 At hynny, mae'r Panel yn disgwyl y canlynol:

- Bydd cynghorau yn rhoi, am ddim i gynghorwyr unigol, gymaint o gymorth ag sydd ei eisiau arnynt (e.e. ffonau, costau post, cyfarpar TG) i alluogi cynghorwyr i gyflawni eu dyletswyddau.
- Bydd cynghorau yn cyhoeddi datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd, gan nodi'r glir y dyletswyddau disgwyliedig.
- Bydd cynghorau yn trafod goddefebau treth bloc i gynghorwyr gyda Chyllid a Thollau EM mewn perthynas â’r holl dreuliau y gellir eu hawlio ac i sicrhau bod eu cynghorwyr yn cael cyngor amserol ar dreth a budd-daliadau mewn perthynas â'u henillion a'u treuliau.

**Talu Aelodau Cyfetholedig**

3.25 Pennodd y Panel uchafswm o £1,200 yn 2010/11 fel lwfans ar gyfer aelodau cyfetholedig pwyllgorau safonau awdurdodau lleol, pwyllgorau craffu addysg a phwyllgorau craffu sy'n cwmpasu gwaith ei bartneriaeth diogelwch cymunedol leol, ar yr amod eu bod yn aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio[22]. Yr uchafswm taliad blynyddol i gadeirydd pwyllgor safonau cyngor oedd £2,230 ac yn achos aelodau cyfetholedig pwyllgorau safonau sy'n cadeirio pwyllgorau safonau i gynghorau cymuned a thref yr uchafswm taliad blynyddol oedd £1,400. Cadwyd yr uchafsymiau hyn ar gyfer 2011/12. Mae'n amlwg o adroddiad y Panel fel y nodwyd yn ei *Adroddiad Blynyddol Rhagfyr 2010* mai dim ond saith cyngor a dalodd yr uchafswm i gadeiryddion ac aelodau cyfetholedig. Ni wnaeth pum cyngor unrhyw daliad o gwbl yn 2010 a dim ond tri a wnaeth daliadau i gadeirydd pwyllgor safonau ar gyfer cynghorau cymuned a thref. Nid yw'r taliadau a wnaed yn 2011 yn hysbys i'r Panel eto.

3.26 Roedd lefel y taliadau i aelodau cyfetholedig, a gyflwynwyd yn 2008, yn seiliedig ar gyfrifiad a wnaed gan y Panel o ran ymrwymiad amser, ynghyd ag asesiad o gyfrifoldeb a oedd yn cyfateb i'r cyfraddau dyddiol ar gyfer Cadeirydd ac Aelodau Cyrff Band 2 a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Panel o'r farn ei bod yn dal yn briodol seilio taliadau ar y cyfrifiad hwn ond y dylid pennu taliadau i gadeirydd ac aelodau cyfetholedig fel ffi ddyddiol (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) sy'n ystyried y ffaith bod llwythi gwaith aelodau cyfetholedig yn amrywio cryn dipyn rhwng awdurdodau yng Nghymru.

DRAFT

[22] Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol y gall aelodau cyfetholedig ar bwyllgorau craffu gael cydnabyddiaeth ariannol gan y corff a’u penododd am fynychu cyfarfodydd pwyllgorau craffu awdurdodau lleol.

3.27 Felly, mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2012/13, fod yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu'r canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd, Safonau Pwyllgor | £256 ffi ddyddiol (£128 am ½ diwrnod) | (22 o brif awdurdodau lleol yng Nghymru) |
| Aelod cyffredin | £198 ffi ddyddiol (£99 am ½ diwrnod) | (pwyllgorau safonau 22 o ALlau a 22 o bwyllgorau craffu addysg a phwyllgorau craffu trosedd ac anhrefn awdurdodau lleol) |
| Aelod cyffredin/cadeirydd | £226 (£113 am ½ diwrnod) | (aelodau cyffredin pwyllgorau safonau ALlau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau cymuned a thref |

Mae'r taliadau hyn yn gyfyngedig i uchafswm o 10 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer unrhyw aelod cyfetholedig unigol.

**Ad-dalu Costau Gofal**

3.28 Mae'r Panel wedi nodi'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Manwerthu yn 2011 sy'n effeithio ar gostau gofal ond nid yw'n credu ei bod yn briodol pennu unrhyw godiad yn yr uchafswm y gellir ei hawlio yn 2012/13. Mae'r Panel yn ymwybodol mai hon fydd yr ail flwyddyn y mae wedi penderfynu na fydd y gyfradd sy'n daladwy yn newid.

3.29 Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2012/13, y dylai cynghorau ddarparu ar gyfer talu uchafswm o £403 y mis i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol[23] sy'n mynd i gostau angenrheidiol i ofalu am blant neu ddibynyddion wrth gyflawni eu dyletswyddau fel aelodau. Dim ond mewn ymateb i gostau gwirioneddol y cyflwynwyd derbynebau ar eu cyfer y gwneir taliadau.

**Ad-dalu Costau Teithio**

3.30 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd y cyfraddau milltiroedd y gellir eu hawlio am deithio yn newid yn 2012/13. Mae'r rhain yn dal i fod yn gysylltiedig â chyfraddau Cyllid a Thollau EM:

45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd.

25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd.

5c y teithiwr y filltir – tâl atodol ar gyfer cludo teithwyr

24c y filltir – beiciau modur preifat.

20c y filltir – beiciau.

[23] Noder bod aelodau cyfetholedig wedi'u cynnwys yn yr hawl hwn, sydd newydd ei ganiatáu o dan y Mesur.

DRAFT

3.31 Bydd pob cais arall am gostau teithio, megis ar fws neu mewn tacsi, yn parhau i gael ei gyflwyno gyda derbynebau sy'n dangos yr union gost, ac maent yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad neu gyfyngiad pellach y gall cyngor benderfynu arno. Dylai aelodau ac aelodau cyfetholedig bob amser gofio bod angen dewis y dull mwyaf cost-effeithiol o deithio.

**Dyletswyddau Cymeradwy – Estyniad**

3.32 Mae'r Panel wedi penderfynu caniatáu i'r ystod o ddyletswyddau y gellir hawlio costau teithio amdanynt gael eu hestyn. Hyd yma dim ond pan gyflawnir 'dyletswyddau cymeradwy' o dan Reoliadau 2007 y mae costau teithio wedi'u talu[24]. Mae llawer o gynghorwyr, yn enwedig y rhai sy'n gwasanaethu mewn ardaloedd gwledig, wedi gofyn am i gostau teithio fod ar gael hefyd am ddyletswyddau ward. Mae Adran 142 (10) o'r Mesur yn nodi bod y 'materion perthnasol' y gellir gwneud taliad i aelodau awdurdod perthnasol amdanynt yn ymwneud â 'busnes swyddogol aelod awdurdod perthnasol os mai mater ydyw y mae aelod yn ymgymryd ag ef fel aelod o awdurdod perthnasol'. Mae'r Panel yn derbyn y gellid dehongli bod dyletswyddau ward mewn perthynas â buddiannau etholwyr neu mewn perthynas â sefydliadau cymunedol yn rhan o 'fusnes swyddogol' aelod etholedig. Felly, mae'r Panel wedi penderfynu y gall cynghorau ddiffinio 'busnes swyddogol' i gynnwys dyletswyddau ward y gellir ad-dalu costau teithio amdanynt. Bydd angen i gynghorau sicrhau y rhoddir rhwystrau a gwrthbwysau priodol ar waith, a hoffai'r Panel atgoffa cynghorau bod y taliadau hyn yn amodol ar gynigion y Panel ar gyfer monitro cydymffurfiaeth (gweler Pennod 8).

**Ad-dalu Costau: Cynhaliaeth**

3.33 Mae'r Panel wedi nodi'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Manwerthu yn 2011 sy'n effeithio ar gostau cynhaliaeth ond nid yw'n credu ei bod yn briodol diwygio'r uchafsymiau ar gyfer cynhaliaeth yn unol â hynny. Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2012/13, y pennir yr uchafsymiau ar gyfer cynhaliaeth fel y nodir isod ac y bydd yn rhaid cyflwyno derbynneb gyda phob cais:

- Uchafswm o £28 y diwrnod, gan gynnwys brecwast os nad yw wedi'i gynnwys yn y gost dros nos.
- Costau dros nos hyd at £150 yn Llundain; £120 yng Nghaerdydd a £95 mewn mannau eraill.
- Hyd at £25 y noson os yw'n aros gyda ffrindiau neu berthnasau.

3.34 Mae'r Panel yn ailfynegi ei farn y dylai llety dros nos gael ei archebu gan y cyngor ei hun ac y dylai'r cyngor dalu amdano, lle y bo'n bosibl. At hynny, hoffai'r Panel atgoffa cynghorau nad oes angen pennu'r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y diwrnod) rhwng prydau gwahanol, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf sy'n ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd os yw'n berthnasol, *ar yr amod bod derbynebau yn cael eu cyflwyno gyda'r cyfryw gais.*

---

[24] Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007.



DRAFT

**Ceisiadau am gynhaliaeth o fewn ffiniau cynghorau**

3.35 Mae'r Panel wedi penderfynu cyfyngu ar geisiadau am gynhaliaeth. Mae hyn yn ymwneud â chynhaliaeth sydd wedi'i hawlio hyd yma gan gynghorwyr mewn perthynas â dyletswyddau cymeradwy o fewn ffiniau sir neu fwrdeistref sirol. Mae'r dystiolaeth a gafwyd gan y Panel yn nodi ei bod yn anodd cyfiawnhau defnyddio arian cyhoeddus i dalu am gynhaliaeth y byddai ei angen p'un a oedd yr aelod ar fusnes swyddogol o fewn ffiniau'r awdurdod ai peidio[25]. Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2012/13, na chaiff costau cynhaliaeth ar gyfer busnes swyddogol sy'n digwydd yn y sir eu had-dalu gan y cyngor.

3.36 Mae'r Panel yn derbyn bod ffactorau gwahanol i'w hystyried pan fydd busnes swyddogol yn ei gwneud yn ofynnol i aelod deithio y tu hwnt i ffiniau'r sir pan ellir mynd i gostau ychwanegol i dalu am gynhaliaeth. Yn yr achos hwn, mae'n dderbyniol ad-dalu costau cynhaliaeth, yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau a nodwyd. Ac nid yw'r Panel yn mynnu ychwaith, pan ddarperir lluniaeth gan yr awdurdod lleol, megis yn ystod cyfarfod, y dylid gofyn i gynghorwyr gyfrannu at y gost. Mater i'r awdurdod lleol yw hwn ac mae'r Panel wedi nodi y gofynnir i aelodau rhai awdurdodau perthnasol dalu swm safonol am luniaeth a ddarperir mewn cyfarfodydd yn y sir.

DRAFT

[25] Gan ddefnyddio terminoleg y Mesur yn lle 'dyletswydd gymeradwy'.

# 4. Taliadau i Aelodau awdurdodau Parciau Cenedlaethol

## Cefndir

4.1 Ers 2008 mae'n ofynnol i awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ystyried penderfyniadau'r Panel wrth bennu lwfansau eu haelodau eu hunain. Er mwyn deall sut mae awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi ymateb i'r gofyniad hwn, cyfarfu aelodau'r Panel ag uwch aelodau ac uwch swyddogion ym mhob awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru ym mis Mai 2009 pan eglurwyd i'r Panel bod awdurdodau Parciau Cenedlaethol o blaid ymestyn cylch gwaith y Panel i gynnwys cyfrifoldeb am gydnabyddiaeth ariannol aelodau awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

4.2 Mae cylch gwaith y Panel wedi'i ymestyn yn hyn o beth o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a daethom i'r casgliad bod angen casglu gwybodaeth fanylach am gynlluniau presennol lwfansau aelodau ym mhob awdurdod Parc Cenedlaethol a dysgu mwy am rolau a chyfrifoldebau aelodau. Dengys sylwadau ysgrifenedig ar gyfer pob awdurdod Parc Cenedlaethol nad yw lwfansau aelodau wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf tra'n aros i gynnydd gael ei wneud o ran y Mesur. Ymwelodd aelodau'r Panel â phob awdurdod i gasglu gwybodaeth - Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Eryri - yn ystod mis Ebrill 2011. Ym mhob awdurdod Parc Cenedlaethol, cyfarfu'r Panel â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ac fel arfer cadeirydd pwyllgor ynghyd ag aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyfarfu aelodau'r Panel ag uwch swyddogion ar wahân.

## Y Cyd-destun Presennol

4.3 Nododd y rhai a gyfwelwyd yn glir yr hoffent i awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael eu cynnwys yn fframwaith cenedlaethol y Panel yn 2012/2013, am y byddai etholiadau llywodraeth leol yn 2012 yn darparu aelodau newydd wedi'u penodi gan gynghorau o'r 10 cyngor lleol cyfansodddol dan sylw. Penodir 40 o gynghorwyr i wasanaethu ar y tri awdurdod Parc Cenedlaethol yn ogystal â'r 20 aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn gyfle delfrydol i roi cynllun newydd ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol aelodau ar waith.

4.4 Rhai pwyntiau allweddol o'r ymweliadau hyn sydd wrth wraidd cynigion y Panel ar gyfer taliadau aelodau awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn 2012/13 yw:

- Bod cyfrifoldebau mwyaf pwysig a strategol awdurdod Parc Cenedlaethol yn gysylltiedig â'i swyddogaethau cynllunio, ynghyd â sicrhau cynaliadwyedd a chynnal bioamrywiaeth y Parc. Mae hyrwyddo adfywio drwy, er enghraifft, dwristiaeth, cynorthwyo cymunedau yng nghefn gwlad, gweithgareddau hamdden awyr agored ac argaeledd tai fforddiadwy i gyd yn faterion pwysig iawn.
- Mae traean o aelodau pob awdurdod Parc Cenedlaethol yn rhai a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cydnabuwyd yr arbenigedd penodol a gyfrannir gan aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru a bod cwmpas y dyletswyddau etholaethol ar gyfer aelodau a oedd yn gynghorwyr yn llai

DRAFT

na'r hyn y byddai angen iddynt ei gyflawni yn eu hawdurdodau lleol. Nid oeddent am i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac aelodau sy'n gynghorwyr gael eu trin yn wahanol o ran cydnabyddiaeth ariannol. Nododd aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru fod angen i gydnabyddiaeth ariannol aelodau fod yn ddigonol i ddenu unigolion profiadol o safon i wneud cais i gael eu penodi gan Lywodraeth Cymru.

- Roedd y rhai a gyfwelwyd o blaid cysoni eu Cyflogau Sylfaenol a'u Huwch Gyflogau (o 2012/13 ymlaen) â Chyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau awdurdodau lleol.[26] Derbyniwyd hefyd y dylai pob awdurdod Parc Cenedlaethol gael ei drin yn gyfartal o ran cydnabyddiaeth ariannol aelodau, er y gallai pwyslais a strwythur polisi amrywio o awdurdod i awdurdod.
- O gofio swyddogaethau strategol parciau cenedlaethol, ystyriwyd bod rôl Cadeirydd yr awdurdod Parc Cenedlaethol, o ran statws, yn debyg i rôl pennaeth dinesig ac arweinydd gwleidyddol awdurdod lleol, sy'n cyfuno arweinyddiaeth gynrychioliadol ac arweinyddiaeth polisi, er bod cwmpas a maint y swyddogaeth yn llai. Ar hyn o bryd nid yw'r un o gadeiryddion yr awdurdodau Parciau Cenedlaethol (sef aelodau a oedd yn gynghorwyr) hefyd yn dal swyddi gweithredol yn eu hawdurdodau lleol eu hunain, ond mae'r Panel yn ymwybodol nad felly y bu hi bob amser.
- Ar y cyfan, roedd is-gadeiryddion pwyllgorau awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cynorthwyo eu cadeiryddion drwy weithredu yn eu lle yn ôl yr angen. Mewn un awdurdod Parc Cenedlaethol roedd gan yr is-gadeirydd gyfrifoldeb ychwanegol a phendant am ddatblygu aelodau ac, o ganlyniad, roedd yn gweithredu'n fwy fel dirprwy gadeirydd. Mae awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn derbyn i'r Panel dynnu lwfansau yn ôl oddi wrth is-gadeiryddion awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn awdurdodau lleol yn 2010/11, ac mae'r awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd wedi parhau i dalu is-gadeiryddion yn bwriadu adolygu eu harfer yn unol â hynny.
- Nododd y Panel yn glir fod cyflog yn parhau i gael ei neilltuo yn ei fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol o ran deiliaid swyddi sy'n gweithredu fel dirprwy gadeirydd pan oedd y swydd yn cynnwys uwch gyfrifoldeb parhaus a nodwyd yn glir.
- O ran nifer y lwfansau cyfrifoldeb arbennig i awdurdodau Parciau Cenedlaethol a dalwyd yn 2010/11, yn ychwanegol at y rhai a dalwyd i gadeirydd ac is-gadeirydd yr awdurdod Parc Cenedlaethol, talwyd pedwar mewn dau awdurdod (i lawr o chwech), a chwech mewn un awdurdod (i lawr o wyth). Ni thalwyd swm wedi'i gyfartalu i bob cadeirydd pwyllgor a thalwyd symiau bach i rai.
- Cymerodd aelodau cyffredin awdurdodau Parciau Cenedlaethol ran mewn o leiaf un pwyllgor yn ogystal ag ymweld â safleoedd a chymryd rhan mewn paneli arolygu, ac ym mhob awdurdod roedd disgwyl i aelodau

[26] Yn unol â'r derminoleg a fabwysiadwyd gan y Panel wrth gyfeirio at daliadau i aelodau yn 2012/13, defnyddir 'cyflog sylfaenol' ac 'uwch gyflog' yma yn lle 'lwfans sylfaenol' a 'lwfans cyfrifoldeb arbennig' a ddefnyddir yn yr awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

DRAFT

gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi a datblygu. Mewn un awdurdod Parc Cenedlaethol, mae aelodau yn cwblhau adroddiadau blynyddol a adolygir gan y cadeirydd ac uwch swyddogion.

- O ran ymrwymiad amser ar gyfer aelodau cyffredin roedd gwahaniaeth rhwng yr ymrwymiad disgwyliedig (fel y'i nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru[27]), sef rhwng 36 a 48 o ddiwrnodau'r flwyddyn a'r ymrwymiad amser a hawliwyd gan y rhai a gyfwelwyd, ac a oedd yn seiliedig ar eu profiad eu hunain, sef rhwng 48 a 60 o ddiwrnodau'r flwyddyn. Roedd yr ymrwymiad amser ychwanegol a fynnwyd gan Gadeiryddion, fel y'i hawliwyd gan y rhai a gyfwelwyd, yn amrywio rhwng 48 a 100 o ddiwrnodau'r flwyddyn.
- Er i gostau teithio aelodau cyfetholedig ar bwyllgorau safonau awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael eu talu ym mhob awdurdod, roedd y lwfans a dalwyd i'r aelod cyfetholedig yn amrywio: talodd un awdurdod lwfans colled ariannol, talodd un arall lwfans presenoldeb ac ni thalodd y trydydd unrhyw lwfans.
- Yn yr un modd, nid oedd y lwfans gofal ar gael ym mhob awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Talwyd cyfraddau teithio a chynhaliaeth ym mhob awdurdod Parc Cenedlaethol yn ôl y cyfraddau a bennwyd gan y Panel ar gyfer awdurdodau lleol, a phan ddarparwyd cynhaliaeth mewn cyfarfodydd, codwyd tâl ar aelodau mewn dau o'r tri awdurdod Parc Cenedlaethol.

**Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau Parciau Cenedlaethol**

4.5 Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ei ymweliadau â'r awdurdodau Parciau Cenedlaethol, mae'r Panel wedi penderfynu:

- Bod gwerth a chyfrifoldeb aelodau cyffredin awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cyfiawnhau cysoni eu cyflog sylfaenol â Chyflog Sylfaenol aelodau awdurdodau lleol, ac y dylid ei dalu am ymrwymiad amser o 42 o ddiwrnodau'r flwyddyn (sydd ynghanol y canllawiau ar ymrwymiad amser a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru). Mae'r Panel yn ystyried bod unrhyw fewnbynnau amser ychwanegol y tu hwnt i 42 o ddiwrnodau a ddefnyddiwyd i gyrraedd Cyflog Sylfaenol y Parc Cenedlaethol yn elfen 'gwasanaeth cyhoeddus'.
- Bod 'maint' (a ddefnyddir gan y Panel i olygu cwmpas, cylch gwaith a chyfrifoldeb) rôl Cadeirydd awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i bennu gan y Panel fel lluosrif o Gyflog Sylfaenol y Parc Cenedlaethol. Mae'r Panel wedi pennu lluosrif o 2.5 sydd ychydig yn llai na'r lluosrif cyfartalog presennol.
- Bod maint rôl Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd prif Bwyllgor wedi'i bennu'n ddwy ran o dair o rôl Cadeirydd ac mae hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a roddwyd i'r Panel.

---

[27] Canllawiau Statudol – Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awst 2002.



DRAFT

- Bod rôl Cadeirydd Pwyllgor arall wedi'i phennu gan y Panel yn 50% o rôl y Cadeirydd, yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd gan y rhai a gyfwelwyd.
- Yn debyg i awdurdodau lleol, mae'r Panel o'r farn y dylai awdurdodau Parciau Cenedlaethol reoli ‘mwy gyda llai’. O ganlyniad, mae'r Panel wedi penderfynu pennu uchafswm o bedwar Uwch Gyflog a delir ar gyfer pob awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Mae'r Panel yn derbyn bod ymrwymiad rhan-amser tybiedig cynghorydd awdurdod lleol sy'n cael Cyflog Sylfaenol neu Uwch Gyflog Band 3 neu 4 yn rhoi digon o amser i'r cyfryw gynghorydd gyflawni dyletswyddau rhan-amser aelod cyffredin o awdurdod Parc Cenedlaethol neu ddeiliad uwch swydd mewn awdurdod Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn bod angen i'r aelodau hynny o awdurdodau lleol sydd hefyd yn ddeiliaid swyddi gweithredol mewn cynghorau (ac a ad-delir gan y Panel ar sail amser llawn tybiedig) ystyried yn ofalus a ellir cyflawni ymrwymiad amser ychwanegol aelodau cyffredin neu uwch aelodau o awdurdod Parc Cenedlaethol yn briodol. Mae'r Panel wedi dod i'r casgliad na ellir cyflawni'r ymrwymiad amser angenrheidiol hwn yn briodol ac na ddylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol am y rôl hon.

**Penderfyniadau'r Panel ynghylch Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau Parciau Cenedlaethol**

4.6 Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2012/13, fod yn rhaid talu'r Cyflog Sylfaenol a nodir isod i holl aelodau awdurdodau Parciau Cenedlaethol a bod yn rhaid talu'r Uwch Gyflog a nodir isod i hyd at uchafswm o bedwar aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol a benodwyd i swydd Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor:

- Cyflog Sylfaenol Parc Cenedlaethol o £3,550 y flwyddyn i aelodau cyffredin awdurdod Parc Cenedlaethol (42/156 x £13,175).
- Uwch Gyflog Parc Cenedlaethol o £8,875 i Gadeirydd awdurdod Parc Cenedlaethol (£3,550 x 2.5).
- Uwch Gyflog Parc Cenedlaethol o £5,920 i Ddirprwy Gadeirydd awdurdod Parc Cenedlaethol a Chadeirydd y prif Bwyllgor (£8,850 x 2/3).
- Uwch Gyflog Parc Cenedlaethol o £4,440 i Gadeirydd Pwyllgor arall mewn awdurdod Parc Cenedlaethol (£8,850 x 0.5).

4.7 O dan y Mesur mae'n ofynnol i'r Panel ystyried effaith ariannol ei benderfyniadau ar awdurdodau perthnasol. Yn hyn o beth mae'r Panel yn nodi bod y Cyflog Sylfaenol ar gyfer 2012/2013 yn fwy na'r Lwfansau Sylfaenol sy'n daladwy ar hyn o bryd ym mhob awdurdod Parc Cenedlaethol. Er y bydd hyn yn rhoi rhagor o bwysau ar gyllidebau awdurdodau Parciau Cenedlaethol o ran cydnabyddiaeth ariannol aelodau, mae'r Panel yn rhagweld y bydd lefelau'r Uwch Gyflogau, ynghyd â'r gostyngiad yn nifer yr Uwch Gyflogau sy'n daladwy, yn arwain at ostyngiad gwrthbwysol. At hynny, mae'r Panel yn nodi nad yw cydnabyddiaeth ariannol aelodau awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi'i fynegeio yn y gorffennol, ac, felly, mae'r Cyflog Sylfaenol uwch yn cynnwys rhyw elfen o ‘ddal i fyny’’.

DRAFT

**Penderfyniadau'r Panel ynghylch taliadau i Aelodau Cyfetholedig awdurdodau Parciau Cenedlaethol**

4.8 Mae'r Panel yn nodi nad yw cydnabyddiaeth ariannol wedi'i thalu hyd yma i aelodau annibynnol pwyllgorau safonau mewn awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn bod angen cydnabod gwerth a chyfrifoldeb y cyfryw aelodau cyfetholedig yn yr un ffordd ag aelodau cyfetholedig mewn awdurdodau lleol. O ganlyniad, mae'r Panel wedi penderfynu cyflwyno ffi ddyddiol ar gyfer aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio.

4.9 Mae lefel y taliadau i aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol yn seiliedig ar gyfrifiad a wnaed gan y Panel o ran ymrwymiad amser, ynghyd ag asesiad o gyfrifoldeb sy'n cyfateb i gyfraddau dyddiol Cadeirydd ac Aelodau Cyrff Band 2 a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Panel o'r farn bod hon hefyd yn sail briodol ar gyfer talu aelodau cyfetholedig awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ond y dylid pennu taliadau i gadeiryddion cyfetholedig ac aelodau cyfetholedig er mwyn cydnabod pwysigrwydd y swyddogaeth. Gall cadeiryddion ac aelodau cyfetholedig ymwrthod â'u hawl i gael eu taliadau, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, os dymunant.

4.10 Felly, mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2012/13, y dylai awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddarparu'r canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd, Pwyllgor Safonau (APC) | £256 ffi ddyddiol (£128 am ½ diwrnod) | (3 awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru) |
| Aelod cyffredin (APC) | £198 ffi ddyddiol (fel uchod) (£99 am ½ diwrnod) | |

Mae'r taliadau hyn yn gyfyngedig i uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer unrhyw aelod cyfetholedig unigol.

**Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau Parciau Cenedlaethol: Materion Cysylltiedig**

4.11 Mae'r Panel yn nodi'r canlynol:

- Ni ddylai aelodau gael mwy nag un Uwch Gyflog Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Telir Uwch Gyflog Awdurdod Parc Cenedlaethol gan gynnwys Cyflog Sylfaenol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Ni ddylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol i aelod o awdurdod lleol sydd hefyd yn ddeiliad swydd weithredol mewn cyngor am rôl fel aelod cyffredin neu uwch aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Derbynnir bod llawer o aelodau awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn neilltuo mwy o'u hamser i'w dyletswyddau ar gyfer yr awdurdod Parc Cenedlaethol na'r ymrwymiad amser a nodwyd uchod. Fel gydag aelodau awdurdodau lleol cydnabyddir yr amser ychwanegol hwn gan y Panel fel gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.

DRAFT

**Ad-dalu Costau Gofal, Teithio a Chynhaliaeth**

4.12 O ran costau Gofal, Teithio a Chynhaliaeth, mae'r Panel wedi penderfynu y dylai'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd o ran ad-dalu costau i awdurdodau lleol hefyd fod ar gael ar gyfer awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn 2012/13. Felly:

- Bydd pob awdurdod Parc Cenedlaethol yn gwneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis, pan y'u hawlir ar sail derbynneb gan yr aelod neu'r aelod cyfetholedig o'r awdurdod Parc Cenedlaethol fel costau angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau awdurdod Parc Cenedlaethol. Dim ond mewn ymateb i gostau gwirioneddol y cyflwynwyd derbynebau ar eu cyfer y gwneir taliadau.
- Bydd pob awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau i ad-dalu costau teithio i'w aelodau a'i aelodau cyfetholedig sydd ar fusnes swyddogol neu'n cyflawni dyletswyddau cymeradwy yn ôl cyfraddau presennol Cyllid a Thollau EM, sef:

  45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd.

  25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd.

  5c y teithiwr y filltir – tâl atodol ar gyfer cludo teithwyr.

  24c y filltir – beiciau modur preifat.

  20c y filltir – beiciau.

4.13 Bydd pob cais arall am gostau teithio, megis ar fws ac mewn tacsi, yn parhau i gael ei gyflwyno gyda derbynebau sy'n dangos yr union gost, ac maent yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad neu gyfyngiad pellach y gall awdurdod Parc Cenedlaethol benderfynu arno. Dylai aelodau ac aelodau cyfetholedig bob amser gofio bod angen dewis y dull mwyaf cost-effeithiol o deithio.

4.14 Bydd pob awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau i ad-dalu costau cynhaliaeth i'w aelodau a'i aelodau cyfetholedig yn ôl yr uchafsymiau a nodir isod pan gyflwynir derbynebau gyda cheisiadau:

£28 y diwrnod – lwfans dyddiol ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast pan nas darparwyd yn y gost dros nos.

£150 – Llundain dros nos.

£120 – Caerdydd dros nos.

£95 – rhywle arall dros nos.

£25 – aros dros nos gyda ffrindiau a pherthnasau.

(Gall awdurdodau Parciau Cenedlaethol barhau i godi tâl ar aelodau unigol am gynhaliaeth pan ddarperir lluniaeth gan yr awdurdod mewn cyfarfod)

DRAFT

4.15 Dylai llety dros nos gael ei archebu agan yr awdurdod Parc Cenedlaethol ei hun a dylai'r awdurdod dalu amdano, lle y bo'n bosibl. Nid oes angen pennu'r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y diwrnod) rhwng prydau gwahanol, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf sy'n ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd os yw'n berthnasol, *ar yr amod bod derbynebau yn cael eu cyflwyno gyda'r cyfryw hawliadau.*

DRAFT

# 5. Taliadau i Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

## Cefndir

5.1 Bu fframwaith statudol y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn fodd i fynegeio lwfansau eu haelodau yn ôl y cynnydd cyfartalog a gafwyd yn eu hawdurdodau lleol cyfansoddol. Yn sgîl sefydlu'r Panel yn 2008 roedd hefyd yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub ystyried penderfyniadau'r Panel wrth bennu cydnabyddiaeth ariannol aelodau. Pan gyfarfu cynrychiolwyr yr awdurdodau tân ac achub ag aelodau'r Panel yn 2009 fe wnaethant nodi'n glir yr hoffent weld cylch gwaith y Panel yn cael ei estyn i gynnwys cydnabyddiaeth ariannol eu haelodau.

## Y Cyd-destun Presennol

5.2 Ar ôl i gylch gwaith y Panel gael ei estyn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gwahoddodd y Panel awdurdodau tân ac achub i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar gynlluniau lwfansau presennol eu haelodau ac wedyn ymwelodd â phob awdurdod – awdurdod tân ac achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, awdurdod tân ac achub Gogledd Cymru ac awdurdod tân ac achub De Cymru – yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2011. Yn ystod yr ymweliadau cyfarfu aelodau'r Panel â chadeirydd yr awdurdod tân ac achub ac fel arfer cadeirydd pwyllgor yn absenoldeb y dirprwy gadeirydd. Cyfarfu'r Panel hefyd ag uwch swyddogion ar wahân..

5.3 Nododd y rhai a gyfwelwyd yn glir yr hoffent gael eu cynnwys yn fframwaith cenedlaethol y Panel ar gyfer 2012/2013. Mae hyn yn gyfle delfrydol i roi cynllun newydd ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol aelodau ar waith am y byddai'n cyd-daro ag ethol cynghorau lleol newydd, y câi 25 o gynghorwyr o'r chwe chyngor cyfansoddol sy'n ffurfio awdurdod tân ac achub Canolbarth a Gogledd Cymru, 28 o gynghorwyr o'r chwe chyngor cyfansoddol sy'n ffurfio awdurdod tân ac achub Gogledd Cymru a 24 o gynghorwyr o'r 10 cyngor cyfansoddol sy'n ffurfio awdurdod tân ac achub De Cymru, eu henwebu ohonynt, fel arfer am gyfnod o bedair blynedd.

5.4 Rhai pwyntiau allweddol o'r ymweliadau hyn sydd wrth wraidd cynigion y Panel ar gyfer taliadau aelodau awdurdodau tân ac achub yn 2012/2013 yw:

- Bod strwythur pwyllgorau bellach i'w gael ym mhob awdurdod tân ac achub yng Nghymru, ond nad yw cadeiryddion pwyllgorau yn cael LCA am mai dim ond ar gyfer cadeirydd ac is-gadeirydd pob awdurdod y mae'r rhain wedi bod ar gael[28]. Mae swyddogaeth pwyllgorau awdurdodau tân ac achub yn amrywio, a phwyllgorau cyllid, archwilio ac adnoddau dynol yw'r rhai mwyaf cyffredin.
- Bod cynnwys aelodau cyffredin yng ngwaith pwyllgorau awdurdodau tân ac achub, gweithgorau a rhaglenni hyfforddi/datblygu cysylltiedig wedi gwella eu dealltwriaeth o swyddogaethau craidd awdurdodau tân ac achub a'i fod hefyd wedi gwella lefelau presenoldeb aelodau cyffredin a

[28] Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004.



DRAFT

chynyddu eu cyfranogiad mewn cyfarfodydd o'r awdurdod llawn. Mae cyfrifoldeb aelodau awdurdodau tân ac achub yn cyfateb i'w rôl fel aelodau pwyllgorau mewn awdurdodau lleol a cheir rhywfaint o waith cysylltu â'r etholaeth o ran materion sy'n ymwneud ag awdurdodau tân ac achub. Roedd yr ymrwymiad amser yr honnwyd ei fod yn ofyniad sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin awdurdodau tân ac achub yn amrywio rhwng 12 ac 16 o ddiwrnodau'r flwyddyn.

- Ymddengys nad oes unrhyw rôl ag uwch gyfrifoldeb pendant a pharhaus ar gyfer is-gadeiryddion pwyllgorau awdurdodau tân ac achub heblaw am weithredu yn absenoldeb y cadeirydd. Hysbyswyd uwch aelodau awdurdodau tân ac achub a gyfarfu â'r Panel, er nad oes unrhyw ddarpariaeth yn fframwaith y Panel ar gyfer talu cydnabyddiaeth ariannol i is-gadeiryddion pwyllgorau, fod darpariaeth ar gyfer talu cydnabyddiaeth ariannol am rôl dirprwy lle mae tystiolaeth o rôl bendant sy'n cynnwys uwch gyfrifoldeb parhaus – er enghraifft, dirprwy arweinydd neu ddirprwy gadeirydd cyngor.
- Bod dau o gadeiryddion yr awdurdodau tân ac achub hefyd yn ddeiliaid swyddi gweithredol yn eu hawdurdodau cartref.
- Amcangyfrifwyd mai rhwng tri ac wyth diwrnod y mis oedd ymrwymiad amser cadeirydd awdurdod tân ac achub. Cytunodd pawb fod y cyfrifoldeb yn cynnwys elfen gynrychioliadol bwysig sy'n debyg i swyddogaeth gynrychioliadol pennaeth dinesig awdurdod lleol. O ran cyfrifoldeb polisi daeth y Panel i'r casgliad bod rôl arwain cadeirydd awdurdod tân ac achub yn cyfateb orau i gadeirydd Band 3 mewn awdurdod lleol.
- Bod awdurdodau tân ac achub yn gobeithio y byddai'r Panel yn pennu ac yn cyfartalu lefel Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau awdurdodau tân ac achub[29] ac y byddai cydnabyddiaeth ariannol awdurdodau tân ac achub yn cael ei chysoni â'r hyn a geir mewn awdurdodau lleol. Tynnodd aelodau sylw at yr hyn yr ystyriwyd ei fod yn lefel isel o gydnabyddiaeth ariannol am y swyddogaeth a gyflawnir, sefyllfa a waethygir gan y ffaith nad yw lwfansau awdurdodau tân ac achub wedi newid ers peth amser (heblaw am eu mynegeio) tra'n aros am unrhyw estyniad i gylch gwaith y Panel.
- Y telir lwfansau i aelodau annibynnol pwyllgorau safonol mewn un awdurdod tân ac achub, ond bod costau teithio ar gael ym mhob awdurdod.
- Bod costau teithio a lwfansau ar gael ym mhob awdurdod tân ac achub ond bod uchafsymiau gwahanol.

**Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru: Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau**

5.5 Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliadau â'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru, mae'r Panel wedi penderfynu:

[29] Gan ddefnyddio’r termau ‘Cyflog Sylfaenol’ ac ‘Uwch Gyflog’ yn lle ‘Lwfans Sylfaenol’ a ‘Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig’, sydd wedi’u defnyddio hyd yma mewn awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.



DRAFT

- Y dylid cysoni gwerth a chyfrifoldeb aelodau cyffredin awdurdodau tân ac achub yng Nghymru â Chyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol, ac y dylid ei dalu am ymrwymiad amser o 16 o ddiwrnodau'r flwyddyn.
- Y dylid cysoni amser, gwerth a chyfrifoldeb cadeirydd awdurdod tân ac achub yng Nghymru ag Uwch Gyflog deiliad swydd weithredol Band 3 mewn awdurdod lleol (hynny yw, â'r rhan honno o'r Uwch Gyflog Band 3 nad yw'n cynnwys Cyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol).
- Y dylid cysoni amser, gwerth a chyfrifoldeb dirprwy gadeirydd awdurdod tân ac achub yng Nghymru lle y ceir uwch gyfrifoldeb pendant a pharhaus ag Uwch Gyflog deiliad swydd weithredol Band 4 mewn awdurdod lleol (hynny yw, â'r rhan honno o'r Uwch gyflog Band 4 nad yw'n cynnwys Cyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol).
- Y dylid cysoni amser, gwerth a chyfrifoldeb cadeirydd pwyllgor mewn awdurdod tân ac achub yng Nghymru ag Uwch Gyflog deiliad swydd weithredol Band 4 mewn awdurdod lleol (hynny yw, â'r rhan honno o'r Uwch Gyflog Band 4 nad yw'n cynnwys Cyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol).
- Mae'r Panel yn derbyn bod ymrwymiad rhan-amser tybiedig cynghorydd awdurdod lleol sy'n cael Cyflog Sylfaenol neu Uwch Gyflog Band 3 neu 4 yn rhoi digon o amser i'r cyfryw gynghorydd gyflawni dyletswyddau rhan-amser aelod cyffredin o awdurdod tân ac achub yng Nghymru neu ddeiliad uwch swydd mewn awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn bod angen i'r aelodau hynny o awdurdodau lleol sydd hefyd yn ddeiliaid swyddi gweithredol mewn cynghorau (ac a ad-delir gan y Panel ar sail amser llawn tybiedig) ystyried yn ofalus a ellir cyflawni ymrwymiad amser ychwanegol aelodau cyffredin neu uwch aelodau o awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn briodol. Mae'r Panel wedi dod i'r casgliad na ellir cyflawni'r ymrwymiad amser angenrheidiol hwn yn briodol ac na ddylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol am y rôl hon..

5.6 Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2012/13, y telir y Cyflog Sylfaenol a nodir isod i holl aelodau awdurdodau tân ac achub yng Nghymru ac y telir yr Uwch Gyflogau a nodir isod i hyd at uchafswm o dri aelod o awdurdod tân ac achub yng Nghymru a benodir i swydd Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor:

- Cyflog Sylfaenol awdurdod tân ac achub yng Nghymru o £1,350 sy'n daladwy i holl aelodau cyffredin awdurdodau tân ac achub (16/156 x £13,175).
- Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub yng Nghymru o £10,085 sy'n daladwy i Gadeirydd awdurdod tân ac achub yng Nghymru (£1,350 + £8,735).
- Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub yng Nghymru o £5,095 sy'n daladwy i Ddirprwy Gadeirydd awdurdod tân ac achub yng Nghymru (£1,350 + £3,745).



DRAFT

- Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub yng Nghymru o £5,095 sy'n daladwy i Gadeirydd prif Bwyllgor awdurdod tân ac achub yng Nghymru (£1,350 + £3,745).
- Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub yng Nghymru o £3,400 sy'n daladwy i Gadeirydd un o Bwyllgorau eraill awdurdod tân ac achub yng Nghymru (£1,350 + £2,050).

**Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru: Materion Cysylltiedig**

5.7 Mae'r Panel yn nodi'r canlynol:

- Ni ddylai aelodau gael mwy nag un Cyflog awdurdod tân ac achub.
- Telir Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub gan gynnwys Cyflog Sylfaenol yr awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- Ni ddylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol i aelod o awdurdod lleol sydd hefyd yn ddeiliad swydd weithredol mewn cyngor am rôl fel aelod cyffredin neu uwch aelod o awdurdod tân ac achub.
- Derbynnir bod llawer o aelodau awdurdodau tân ac achub yn neilltuo mwy o'u hamser i'w dyletswyddau ar gyfer yr awdurdod tân ac achub na'r ymrwymiadau amser a nodwyd uchod. Fel gydag aelodau awdurdodau lleol cydnabyddir yr amser ychwanegol hwn gan y Panel fel gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.

**Penderfyniadau'r Panel ynghylch taliadau i Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru**

5.8 Mae'r Panel yn nodi nad yw cydnabyddiaeth ariannol wedi'i thalu hyd yma i aelodau annibynnol pwyllgorau safonau mewn awdurdodau tân ac achub. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn bod angen cydnabod gwerth a chyfrifoldeb y cyfryw aelodau cyfetholedig i'r un graddau ag y maent yn cael eu cydnabod ar gyfer eu cymheiriaid mewn awdurdodau lleol. O ganlyniad, mae'r Panel wedi penderfynu cyflwyno ffi ddyddiol ar gyfer aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio.

5.9 Mae lefel y taliadau i aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol yn seiliedig ar gyfrifiad a wnaed gan y Panel o ran ymrwymiad amser, ynghyd ag asesiad o gyfrifoldeb sy'n cyfateb i gyfraddau dyddiol Cadeirydd ac Aelodau Cyrff Band 2 a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Panel o'r farn bod hon hefyd yn sail briodol ar gyfer talu aelodau cyfetholedig awdurdodau tân ac achub, ond y dylid pennu taliadau i gadeiryddion cyfetholedig ac aelodau cyfetholedig er mwyn cydnabod pwysigrwydd y swyddogaeth. Gall cadeiryddion ac aelodau cyfetholedig ymwrthod â'u hawl i gael eu taliadau, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, os dymunant.

5.10 Felly, mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2012/13, y dylai awdurdodau tân ac achub ddarparu'r canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd, Pwyllgor Safonau (ATA) | £256 ffi ddyddiol<br>(£128 am ½ diwrnod) | (tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru) |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Aelod cyffredin (ATA) | £198 ffi ddyddiol<br>(£99 am ½ diwrnod | (fel uchod) |

Mae'r taliadau hyn yn gyfyngedig i uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer unrhyw aelod cyfetholedig unigol.

**Ad-dalu Costau Gofal, Teithio a Chynhaliaeth**

5.11 O ran costau Gofal, Teithio a Chynhaliaeth, mae'r Panel wedi penderfynu y dylai'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd o ran ad-dalu costau i awdurdodau lleol hefyd fod ar gael ar gyfer awdurdodau tân ac achub yn 2012/13. Felly mae'r Panel wedi penderfynu:

- Y bydd pob awdurdod tân ac achub yn gwneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis, pan y'u hawlir ar sail derbynneb gan yr aelod neu'r aelod cyfetholedig o'r awdurdod tân ac achub fel costau angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau awdurdod tân ac achub. Dim ond mewn ymateb i gostau gwirioneddol y cyflwynwyd derbynebau ar eu cyfer y gwneir taliadau.

- Y bydd pob awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau i ad-dalu costau teithio i'w aelodau sydd ar fusnes swyddogol neu'n cyflawni dyletswyddau cymeradwy yn ôl cyfraddau presennol Cyllid a Thollau EM, sef:

  45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd.

  25c y filltir – dros 10,000 o filltiroedd.

  5c y teithiwr y filltir – tâl atodol ar gyfer cludo teithwyr.

  24c y filltir – beiciau modur preifat.

  20c y filltir – beiciau.

5.12 Bydd pob cais arall am gostau teithio, megis ar fws ac mewn tacsi, yn parhau i gael ei gyflwyno gyda derbynebau sy'n dangos yr union gost, ac maent yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad neu gyfyngiad pellach y gall awdurdod tân ac achub benderfynu arno. Dylai aelodau ac aelodau cyfetholedig bob amser gofio bod angen dewis y dull mwyaf cost-effeithiol o deithio.

5.13 Y bydd pob awdurdod tân ac achub yn parhau i ad-dalu costau cynhaliaeth i'w aelodau a'i aelodau cyfetholedig yn ôl yr uchafsymiau a nodir isod pan gyflwynir derbynebau gyda cheisiadau:

£28 y diwrnod – lwfans diwrnod ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast pan nas darparwyd yn y gost dros nos.

£150 - Llundain dros nos.

£120 - Caerdydd dros nos.

£95 - rhywle arall dros nos.

£25 – aros dros nos gyda pherthnasau neu ffrindiau.

DRAFT

(Gall awdurdodau tân ac achub barhau i godi tâl ar aelodau unigol am gynhaliaeth pan ddarperir lluniaeth gan yr awdurdod mewn cyfarfod.)

5.14 Dylai llety dros nos gael ei archebu gan yr awdurdod tân ac achub ei hun a dylai'r awdurdod dalu amdano, lle y bo'n bosibl. Nid oes angen pennu'r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y diwrnod) rhwng prydau gwahanol, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf sy'n ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd os yw'n berthnasol, *ar yr amod bod derbynebau yn cael eu cyflwyno gyda'r cyfryw hawliadau.*

DRAFT

DRAFT

# 6. Taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref

## Y Cyd-destun Presennol

6.1 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth ar Fesur arfaethedig Llywodraeth Leol (Cymru) [2011], cydnabu'r Panel (er iddo groesawu'r penderfyniad i estyn ei gylch gwaith i gynnwys cynghorau cymuned a thref) fod y nifer fawr o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn creu set wahanol iawn o amgylchiadau ar gyfer goruchwylio cydnabyddiaeth ariannol aelodau gan y Panel. Nodwyd gwahaniaethau yn y ffyrdd y mae cynghorau cymuned a thref wedi'u strwythuro a'r ffyrdd y maent yn gweithredu. Mae'n bosibl mai dim ond unwaith neu ddwywaith y flwyddyn y mae'r cynghorau lleiaf yn cyfarfod i hyrwyddo cydlyniant cymunedol, tra bod cynghorau tref mwy o faint sy'n cyflogi staff ac yn darparu gwasanaethau yn rheoli, o bosibl, gyllidebau blynyddol o £1 miliwn neu fwy.

6.2 Mae cynghorau cymuned a thref yn amrywio'n fawr o ran y gyfran o'u haelodau sydd wedi'u hethol yn uniongyrchol. Mewn llawer o achosion nid ymleddir etholiadau i gynghorau cymuned a thref ac mae'r cyngor 'etholedig' yn cynnwys llawer o aelodau cyfetholedig. Ni ddefnyddiwyd unrhyw ddull cynhwysfawr o dalu cydnabyddiaeth ariannol i aelodau heblaw am ad-dalu costau sy'n gysylltiedig â mynd i gyfarfodydd.

## Cynnydd

6.3 Hysbysodd y Panel y Pwyllgor Deddfwriaethol[30] y byddai angen buddsoddi cryn dipyn o amser ac ymdrech ar ei ran ef i lunio fframwaith cydnabyddiaeth ariannol y gellid ystyried ei fod yn deg ac a fyddai'n rhoi sylw priodol i'r nifer ac amrywiaeth o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Mae'r Panel yn bwriadu dechrau proses o gasglu tystiolaeth sy'n debygol o ofyn am sylwadau ysgrifenedig gan bob cyngor cymuned a thref ac a all gynnwys ymweliadau â detholiad cynrychioliadol, ar y cyfan.

6.4 Mae'r Panel yn rhagweld y bydd cynigion ar gyfer fframwaith cydnabyddiaeth ariannol cenedlaethol i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn barod i ymgynghori arno yn haf 2012 ac i'w weithredu yn 2013/2014. Tan hynny bydd lwfansau i aelodau cynghorau cymuned a thref yn parhau'n daladwy o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003.

DRAFT

[30] Gweler paragraff 134, Cofnod y Trafodion – Pwyllgor Deddfwriaethol 3, 4ydd Tachwedd 2010 http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-perm-leg/bus-committees-third-lc3-agendas.htm?act=dis&id=202928&ds=11/2010

DRAFT

# 7. Darpariaeth Pensiwn ar gyfer Aelodau Awdurdodau Perthnasol yng Nghymru

7.1 Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2010 nododd y Panel ei fod yn deall mai dim ond un cyngor sir yng Nghymru – sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – a oedd yn atal ei gynghorwyr rhag manteisio ar Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid yw'n hysbys a yw'r sefyllfa wedi newid ar gyfer 2011/12.

7.2 Mae'r Panel yn ailfynegi ei farn y dylai fod gan gynghorwyr yr hawl i ymuno â'r Cynllun hwn ac y gall eu galluogi i wneud hynny leihau'r rhwystrau i wasanaeth cyhoeddus etholedig mewn llywodraeth leol gan ei agor i adrannau ehangach o'r cyhoedd. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi'r pŵer i'r Panel wneud penderfyniadau ar hawliadau pensiwn aelodau awdurdodau lleol a bydd y Panel yn ystyried gwneud hynny ar gyfer 2013/14.

7.3 Yn ystod ei ymweliad ag un awdurdod tân ac achub, tynnodd aelodau'r awdurdod tân ac achub a oedd yn gynghorwyr sylw at eu hanfodlonrwydd na allai eu gwasanaeth i'r awdurdod tân ac achub gael ei gyfrif fel rhan o'u cyfraniad at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid oes gan y Panel unrhyw bwerau i unioni hyn am fod cymhwysedd i fod yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei reoleiddio gan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972.

DRAFT

DRAFT

# 8. Monitro Cydymffurfiaeth â Gofynion y Panel

**Y Cyd-destun Presennol**

8.1 Mae Adran 153 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol gydymffurfio â'r gofynion a osodir arno gan un o adroddiadau blynyddol y Panel ac mae'n galluogi'r Panel i fonitro a mynnu cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel ynghylch taliadau a phensiynau. Cred y Panel fod y pŵer newydd hwn yn cyd-fynd yn hwylus â'i fwriad i ddarparu fframwaith cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol aelodau a ddefnyddir yn gyson ym mhob awdurdod perthnasol.

8.2 Wrth wraidd fframwaith cydnabyddiaeth ariannol y Panel, sy'n seiliedig ar Egwyddorion sy'n hyrwyddo tegwch, gwerth am arian, ansawdd, atebolrwydd i drethdalwyr lleol a thryloywder, mae'r gosodiad nad ellir cynnal democratiaeth mewn llywodraeth leol heb gost: mae cynghorwyr yn cael cydnabyddiaeth ariannol yn gyfnewid am werth ychwanegol eu rôl wrth lywodraethu cymunedau lleol. Mae'n rhaid sicrhau y gellir cyfiawnhau cydnabyddiaeth ariannol aelodau o ran gweithgarwch a chyflawniad aelodau, yn enwedig er mwyn sicrhau y caiff ei hystyried yn gost resymol gan y cyhoedd. Mae cyhoeddi'r ystod lawn o gyfrifoldebau aelodau a'r gydnabyddiaeth ariannol a gânt am ymgymryd â'r cyfryw gyfrifoldebau yn gyfraniad defnyddiol at dryloywder ac at wella dealltwriaeth y cyhoedd o rolau aelodau wrth lywodraethu awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

**Monitro Cydymffurfiaeth: Cynnydd**

8.3 Mae'r Panel eisoes wedi nodi'n glir ei fod yn bwriadu symud y tu hwnt i fonitro'r taliadau a wneir tuag at fonitro'r perfformiad y gwneir y cyfryw daliadau amdano. Ond mae'r Panel o'r farn mai mater ar gyfer y tymor hwy yw hwn ac mae'n bwriadu ymgynghori ymhellach arno. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn y gellir dechrau'r broses yn 2012/13 drwy nodi sut y gall awdurdodau perthnasol gofnodi perfformiad eu haelodau o ran presenoldeb a gweithgarwch

**Monitro Cydymffurfiaeth**

8.4 Mae bwriadau'r Panel i fonitro cydymffurfiaeth â'i benderfyniadau ar gyfer 2012/13 ym mhob awdurdod perthnasol fel a ganlyn:

- Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol gynnal **Rhestr flynyddol o Gyfrifoldebau a Chydnabyddiaeth Ariannol Aelodau** (Rheoliadau 4 a 5 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol). Mae canllawiau yn Atodiad 2 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Rhestr.
- Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr yn ardal yr awdurdod (Rheoliad 40 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu arni a chyn 31 Gorffennaf nesaf yn dilyn dechrau'r flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) y mae'n gymwys iddi.

DRAFT

- Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol anfon y Rhestr i'r Panel cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu arni a chyn 31 Gorffennaf nesaf yn dilyn dechrau'r flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) y mae'n gymwys iddi.
- Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi yn ardal yr awdurdod y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog, lwfansau a ffioedd (Rheoliad 41 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) cyn gynted â phosibl ar ôl penderfynu arni a chyn 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) y mae'n gymwys iddi. Mae canllawiau yn Atodlen 3 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Gofyniad Cyhoeddusrwydd.
- Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol anfon ei Ofyniad Cyhoeddusrwydd i'r Panel pan fydd yn mynd ati i'w gyhoeddi'n lleol.

DRAFT

# Atodiad 1

## Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) ar gyfer Talu Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Perthnasol

### Cyflwyniad

Mae Adran 8 (adrannau 141 i 160) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) ac atodlenni 2 a 3 iddo yn nodi'r trefniadau ar gyfer taliadau a phensiynau aelodau yn nodi'r awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Mae'r pwerau a geir yn rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 yn disodli'r Offerynnau Statudol canlynol:

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002 (Rhif 1895 (Cy.196)).
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 (Rhif 2555 (Cy.227)).
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 (Rhif 1086 (Cy.115)).

Disgwylir i'r Offerynnau Statudol hyn gael eu dirymu ar 31 Gorffennaf 2011, er y bydd eu darpariaethau yn parhau mewn grym ar ffurf darpariaethau arbed a wnaed o dan adran 176(3) o'r Mesur nes y daw Adroddiad Blynyddol y Panel i rym ar 1 Ebrill 2012.

Mae'r Mesur hefyd yn disodli'r adrannau o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymwneud â thaliadau i gynghorwyr yng Nghymru, ac eithrio'r taliadau hynny sy'n ymwneud â chynghorwyr cymuned a thref. Bydd lwfansau i aelodau cynghorau cymuned a thref yn parhau i fod yn daladwy, am y tro, o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003 (Rhif 895 (Cy.115)).

## Rhan 1

### Cyffredinol

1. a. Teitl byr y Rheoliadau hyn yw "Rheoliadau'r IRPW".

   b. Daw'r Adroddiad Blynyddol, dyddiedig Rhagfyr 2011 a Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i rym ar 1 Ebrill 2012 er mai eu dyddiad gweithredu fydd y diwrnod ar ôl cyfarfod blynyddol yr awdurdod perthansol.

DRAFT

c. Mae'n rhaid i lwfansau sy'n daladwy rhwng 1 Ebrill 2012 a diwrnod cyfarfod blynyddol yr awdurdod perthnasol barhau, fel pe na bai'r offerynnau statudol wedi'u dirymu, ac yn achos awdurdodau lleol mae'n rhaid iddynt gyd-fynd â gofynion Adroddiad Blynyddol y Panel, dyddiedig Rhagfyr 2010, ac Adroddiadau Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011/12.

d. Bydd penderfyniadau'r Panel yn yr Adroddiad Blynyddol, dyddiedig Rhagfyr 2011, ac unrhyw adroddiadau atodol, yn gymwys o'r diwrnod ar ôl cyfarfod blynyddol yr awdurdod tan 31 Mawrth 2013.

e. Mae'r Rheoliadau hyn a luniwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru fel y nodir yn y Mesur yn Adrannau 142 a 147.

f. Mae'n ofynnol i Awdurdodau lunio rhestr o daliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig cyn pen pedair wythnos ar ôl y Cyfarfod Blynyddol.

**Dehongli**

2. Yn Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:

- ystyr "Deddf 1972" yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- ystyr "Deddf 2000" yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.
- ystyr "lwfans" yw'r union swm neu'r uchafswm y gellir ei ad-dalu i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod perthnasol am gostau yr aed iddynt o reidrwydd wrth gynnal busnes swyddogol yr awdurdod perthnasol.
- ystyr "adroddiad blynyddol" yw adroddiad a luniwyd gan y Panel yn unol ag adran 145 o'r Mesur.
- ystyr "awdurdod" yw awdurdod perthnasol yng Nghymru fel y'i diffinnir yn Adran 144(2) o'r Mesur ac mae'n cynnwys awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol), awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- mae i "cyflog sylfaenol" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 6 o'r rheoliadau hyn a gellir ei amodi fel "Cyflog Sylfaenol ALl" i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o awdurdod lleol; "cyflog sylfaenol Parc Cenedlaethol" i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol; a "cyflog sylfaenol awdurdod tân ac achub" i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- mae i "lwfans gofal" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 21 o'r rheoliadau hyn.
- mae "pwyllgor" yn cynnwys is-bwyllgor.
- ystyr "cyngor cymuned neu dref", o ran Rhan 8 o'r Mesur, yw'r ystyr a nodir yn Rhan 7 o'r Mesur.

DRAFT

- ystyr “drafft ymgynghori” yw drafft adroddiad blynyddol a luniwyd gan y Panel o dan Adran 146 (7) neu 147(8) o'r Mesur, y mae'n rhaid i'r Panel ystyried sylwadau a gyflwynwyd arno.
- “awdurdod cyfansoddol” – yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol awdurdod lleol a leolir o fewn ardal awdurdod Parc Cenedlaethol yw hwn; yn achos awdurdodau tân ac achub yng Nghymru awdurdod lleol a leolir o fewn ardal awdurdod tân ac achub yw hwn.
- ystyr “grŵp rheoli” yw grŵp gwleidyddol mewn awdurdod lleol lle mae unrhyw un o'i aelodau yn rhan o'r pwyllgor gweithredol.
- mae i “aelod cyfetholedig” yr ystyr a nodir yn adran 144 (5) o'r Mesur, hynny yw y rhai sydd â'r hawl i bleidleisio ar faterion sy'n dod o fewn maes y pwyllgor y maent yn gwasanaethu arno.
- mae i “ffi aelod cyfetholedig” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 19 o'r rheoliadau hyn.
- ystyr “Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd” yw'r pwyllgor awdurdod lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o'r Mesur.
- ystyr “pwyllgor gweithredol” yw pwyllgor gweithredol awdurdod ar ffurf fel y nodir yn adrannau 11(2) i (5) o Ddeddf 2000, fel y'u diwygiwyd gan adran 34 o'r Mesur.
- mae i “trefniadau gweithredol” yr ystyr a roddir gan adran 10(1) o Ddeddf 2000.
- mae i “absenoldeb teuluol”, fel y'i diffinnir yn Adran 142 (2)(b) o'r Mesur, yr ystyr a roddir iddo gan Ran 2 o'r Mesur.
- ystyr “awdurdod tân ac achub” yw awdurdod a sefydlwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.
- ystyr “adroddiad blynyddol cyntaf” yw adroddiad y Panel fel y nodir yn adran 146 o'r Mesur.
- ystyr “grŵp yr wrthblaid fwyaf” yw grŵp gwleidyddol, ac eithrio grŵp rheoli, sydd â mwy o aelodau nag sydd gan unrhyw grŵp gwleidyddol arall yn yr awdurdod.
- ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
- ystyr “aelod”, mewn perthynas ag awdurdod lleol, yw unigolyn a etholwyd i wasanaethu fel cynghorydd i'r awdurdod hwnnw; yn achos awdurdod Parc Cenedlaethol yr ystyr yw aelod a benodwyd gan awdurdod cyfansoddol a hefyd unigolyn a benodwyd gan Weinidogion Cymru; yn achos awdurdodau tân ac achub yr ystyr yw aelod a benodwyd gan awdurdod cyfansoddol.
- ystyr “awdurdod Parc Cenedlaethol” yw awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.
- mae i “busnes swyddogol” yr ystyr a nodir yn Adran 142 (10) o'r Mesur mewn perthynas â thalu lwfansau i ad-dalu costau gofal, teithio a

DRAFT

chynhaliaeth yr eir iddynt o reidrwydd gan aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod perthnasol wrth:

a. Mynychu cyfarfod o'r awdurdod neu o unrhyw un o bwyllgorau’r awdurdod neu o unrhyw gorff y mae'r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw un o bwyllgorau corff o'r fath.
b. Mynychu cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohoni.
c. Mynychu cyfarfod yr awdurdodir ei gynnal gan yr awdurdod neu gan bwyllgor o'r awdurdod neu gan gydbwyllgor o'r awdurdod ac un neu fwy o awdurdodau eraill.
d. Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan yr awdurdod neu ei bwyllgor gweithredol.
e. Dyletswydd yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth neu mewn cysylltiad â'u cyflawni o fewn yr ystyr a nodir yn Rhan 2 o Ddeddf 2000, fel y'i diwygiwyd.
f. Dyletswydd yr ymgymerir â hi yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan fydd dogfennau tendro yn cael eu hagor.
g. Dyletswydd yr ymgymerir â hi mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth sydd gan yr awdurdod i archwilio safle neu awdurdodi archwiliad o safle.
h. Dyletswydd yr ymgymerir â hi gan aelodau awdurdodau lleol mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward sy'n deillio o gyflawni swyddogaethau awdurdod lleol.
i. Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddosbarth a gymeradwyir felly, ac yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni.

- ystyr “grŵp gwleidyddol arall” yw grŵp gwleidyddol ac eithrio grŵp rheoli neu grŵp yr wrthblaid fwyaf (os o gwbl) sy'n cynnwys dim llai na 10 y cant o aelodau'r awdurdod hwnnw.
- ystyr “pwyllgor trosolwg a chraffu” yw pwyllgor yr awdurdod y mae ganddo'r pwerau a nodir yn adran 21(2) a (3) o Ddeddf 2000, fel y'u diwygiwyd gan Ran 6 o'r Mesur.
- ystyr “Panel” yw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn adran 141(1) ac atodlen 2 o'r Mesur.
- mae i “swyddog priodol” yr un ystyr ag yn adran 270(3) o Ddeddf 1972.
- diffinnir “awdurdod perthnasol” yn Adran 144(2) o'r Mesur ac, at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'n cynnwys awdurdod lleol, awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

DRAFT

- mae i “materion perthnasol” yr un diffiniad ag a nodir yn Adran 142(2) o'r Mesur.
- ystyr “rhestr” yw rhestr sy'n nodi penderfyniadau'r awdurdod mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud yn ystod y flwyddyn (fel y maent yn ymwneud â'r awdurdod hwnnw) i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw.
- mae i “uwch gyflog” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 11 o'r rheoliadau hyn a gellir ei amodi fel “Uwch Gyflog Awdurdod Lleol” i gyfeirio at uwch gyflog aelod o awdurdod lleol; “Uwch Gyflog Parc Cenedlaethol” i gyfeirio at uwch gyflog aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol; neu “Uwch Gyflog awdurdod Tân ac Achub” i gyfeirio at uwch gyflog aelod o awdurdod Tân ac Achub.
- mae i “adroddiad atodol” yr ystyr a nodir yn adran 146(4 i 8) o'r Mesur.
- mae i “lwfans teithio a chynhaliaeth” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 25 o'r rheoliadau hyn.
- mae i “blwyddyn” yr ystyron canlynol: wedi'i hamodi fel “blwyddyn ariannol” – y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth; “blwyddyn galendr” - y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr; “blwyddyn ddinesig” – y flwyddyn sy'n dechrau ar ddyddiad cyfarfod blynyddol yr awdurdod lleol ac yn dod i ben ar y diwrnod cyn y cyfarfod blynyddol y flwyddyn ganlynol; yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau Tân ac Achub dyma'r cyfnod o 12 mis sy'n dilyn cyfarfod blynyddol yr awdurdod.

## Rhan 2

## Rhestr o Gyfrifoldebau a Chydnabyddiaeth Ariannol Aelodau/Aelodau Cyfetholedig

### Dechrau Cyfnod Swydd

3. Mae cyfnod swydd:

- Aelod o awdurdod lleol yn dechrau ar y dyddiad y mae'r aelod hwnnw yn gwneud datganiad ei fod yn derbyn y swydd honno o dan adran 83(1) o Ddeddf 1972.
- Aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw fel y cyfryw gan awdurdod cyfansoddol ac mae cyfnod swydd aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn dechrau ar ddyddiad y penodiad hwnnw. Mae cyfnod swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr awdurdod Parc Cenedlaethol yn dechrau ar y dyddiad y'u hetholir gan yr awdurdod hwnnw i'r swydd honno.
- Aelod o awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru sy'n gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw fel y cyfryw gan awdurdod cyfansoddiadol ac mae cyfnod swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr awdurdod tân ac achub yn dechrau ar y dyddiad y'u hetholir gan yr awdurdod hwnnw i'r swydd honno.



DRAFT

DRAFT

- Aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol yn dechrau ar y dyddiad y'i penodir gan yr awdurdod perthnasol.

**Rhestr o Gyfrifoldebau a Chydnabyddiaeth Ariannol Aelodau (y Rhestr)**

4. Mae'n rhaid i awdurdod lunio rhestr o'r taliadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'w aelodau a'i aelodau cyfetholedig bob blwyddyn. Mae'n rhaid i swm y taliadau hynny gyd-fynd â phenderfyniadau'r Panel a wnaed ar gyfer y flwyddyn honno yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf neu mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol. Mae'n rhaid llunio'r rhestr cyn pen pedair wythnos yn dilyn cyfarfod blynyddol yr awdurdod.

**Diwygio'r Rhestr**

5. Gall awdurdod ddiwygio'r Rhestr unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) ar yr amod bod y cyfrwy ddiwygiadau yn cyd-fynd â phenderfyniadau'r Panel ar gyfer y flwyddyn honno.

**Cyflog Sylfaenol**

6. Mae'n rhaid i awdurdod ddarparu ar gyfer talu cyflog sylfaenol, fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf ac mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol, i bob un o'i aelodau. Mae'n rhaid talu'r un cyflog i bob aelod. Yn achos awdurdodau lleol yn unig, mae'r cyflog hwn yn parhau'n daladwy yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol.

7. Ni all aelod gael mwy nag un cyflog sylfaenol gan awdurdod perthnasol, ond gall aelod o un awdurdod perthnasol gael cyflog sylfaenol pellach drwy gael ei benodi'n aelod o awdurdod perthnasol arall (ac eithrio yn yr achos a nodir ym mharagraff 16).

8. Pennir y cyflog sylfaenol yn unol ag adran 142(3) o'r Mesur a bydd yn un o'r canlynol:

- Y swm y mae'n rhaid i'r awdurdod ei dalu i aelod o'r awdurdod.
- Yr uchafswm y gall yr awdurdod ei dalu i aelod o'r awdurdod.

9. Os bydd cyfnod swydd aelod yn dechrau neu'n dod i ben heblaw ar ddechrau neu ar ddiwedd blwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod), bydd gan yr aelod hwnnw hawl i gael y cyfryw gyfran o'r cyflog sylfaenol ag sy'n cynrychioli nifer y dyddiau y mae'r aelod yn dal y swydd yn ystod y flwyddyn honno fel cyfran o nifer y dyddiau yn y flwyddyn honno.

10. Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (fel y cyfeiria Rhan 3 o Ddeddf 2000) mae'n rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r rhan o'r cyflog sylfaenol sy'n daladwy i'r aelod hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod hwnnw wedi'i atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

**Uwch Gyflog**

11. Yn ddarostyngedig i baragraffau 12 i 18 gall awdurdod dalu uwch gyflog i aelodau y mae wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddynt. Mae'n rhaid i'r cyfryw daliadau gyd-fynd â phenderfyniad y Panel ar gyfer y flwyddyn honno (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) y gwneir y taliadau ac mae'n rhaid eu nodi yn Rhestr yr awdurdod hwnnw. Yn achos awdurdodau lleol yn unig, bydd uwch gyflog yn parhau'n daladwy yn ystod absenoldeb teuluol deiliad y swydd.

12. Bydd y Panel yn pennu'r canlynol yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf ac mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol:

- Y categorïau o aelodau sy'n gymwys i gael uwch gyflog na fydd, o bosibl, yr un peth ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.
- Y disgresiwn sydd ar gael i awdurdodau o ran talu uwch gyflogau na fydd, o bosibl, yr un peth ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.

13. Bydd yr uwch gyflogau sy'n daladwy yn unol ag adran 142(3) o'r Mesur a byddant yn nodi.

- Y swm y mae'n rhaid i awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.
- Yr uchafswm y gall awdurdod perthnasol ei dalu i'r awdurdod.

14. Bydd yr uwch gyflog yn gyfuniad o'r cyflog sylfaenol a swm ychwanegol ar gyfer y cyfrifoldeb penodol perthnasol a bennwyd gan y Panel yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf ac mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol. Mae'n bosibl na fydd y swm hwn yr un peth ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.

15. Bydd y Panel, yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf ac mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol, yn pennu uchafswm yr uwch gyflogau y gall awdurdod eu talu. Mynegir hyn fel nifer benodol neu fel canran o gyfanswm aelodau'r awdurdod. Gall y nifer neu'r ganran amrywio rhwng awdurdodau neu gategorïau o awdurdodau ond ni fydd yn fwy na 50 y cant heb ganiatâd penodol Gweinidogion Cymru (Adran 142(5) o'r Mesur). Yn achos awdurdodau lleol yn unig gellir mynd dros yr uchafswm i gynnwys talu uwch gyflog i aelod ychwanegol a benodir i gymryd lle deiliaid swydd ag uwch gyflog sy'n absennol am resymau teuluol dros dro.

16. Ni ddylai awdurdod dalu mwy nag un uwch gyflog i aelod. Ni all aelod o awdurdod lleol sy'n cael uwch gyflog fel arweinydd awdurdod lleol neu aelod gweithredol o awdurdod lleol (y nododd y Panel ei fod yn amser llawn) gael ail gyflog fel aelod a benodwyd i wasanaethu ar awdurdod Parc Cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

17. Os nad oes gan aelod, drwy gydol y flwyddyn, gyfrifoldebau penodol sy'n rhoi hawl iddo gael uwch gyflog, telir i'r aelod hwnnw y cyfryw gyfran o'r cyflog ag sy'n cynrychioli nifer y dyddiau y mae gan yr aelod y cyfryw gyfrifoldeb fel cyfran o nifer y dyddiau yn y flwyddyn honno.

18. Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod (fel y cyfeiria Rhan 3 o Ddeddf 2000) ni ddylai'r awdurdod dalu uwch gyflog yr aelod tra bydd wedi'i atal dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur). Os bydd y penderfyniad i'w atal dros dro yn ymwneud ag elfen cyfrifoldeb penodol y taliad yn unig, gall yr aelod gadw'r cyflog sylfaenol.

**Talu Aelodau Cyfetholedig**

19. Mae'n rhaid i awdurdod ddarparu ar gyfer talu ffi i aelod cyfetholedig fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf neu mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol. Mewn perthynas â'r rheoliad hwn ystyr aelod cyfetholedig yw aelod fel y'i diffinnir yn Adran 144(5) o'r Mesur ac y'i nodir ym mharagraff 2 o'r rheoliadau hyn.

20. Os caiff aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (fel y cyfeiria Rhan 3 o Ddeddf 2000) ni ddylai'r awdurdod dalu ffi aelod cyfetholedig tra bydd wedi'i atal dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur).

**Lwfansau**

**Lwfansau Gofal**

21. Mae'n rhaid i awdurdodau ddarparu ar gyfer talu lwfans ("lwfans gofal") i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod mewn perthynas â'r cyfryw gostau sy'n gysylltiedig â gofalu am blant neu ddibynyddion ag yr eir iddynt o reidrwydd wrth gynnal busnes swyddogol fel aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod hwnnw. Ni ddylid gwneud taliadau o dan y paragraff hwn:

- Mewn perthynas ag unrhyw blentyn neu ddibynnydd dros 15 oed oni bai fod yr aelod/aelod cyfetholedig yn bodloni'r awdurdod bod angen goruchwyliaeth ar y plentyn neu ddibynnydd a achosodd i'r aelod fynd i gostau angenrheidiol o ran gofal y plentyn neu'r dibynnydd hwnnw wrth gyflawni dyletswyddau aelod neu aelod cyfetholedig.
- I fwy nag un aelod/aelod cyfetholedig o'r awdurdod o ran gofal yr un plentyn neu ddibynnydd.
- O fwy nag un lwfans gofal i aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod na all ddangos yn foddhaol i'r awdurdod bod yn rhaid i'r aelod/aelod cyfetholedig wneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofalu am wahanol blant neu ddibynyddion.

22. Pennir uchafswm y lwfans gofal sy'n daladwy gan awdurdod gan y Panel yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf neu mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol.

23. Os caiff aelod/aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod (fel y cyfeiria Rhan 3 o Ddeddf 2000) mae'n rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r rhan o'r lwfans gofal sy'n daladwy i'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau

neu'r dyletswyddau y mae'r aelod/aelod cyfetholedig wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

24. Mae'n rhaid i Restr awdurdod nodi uchafswm y lwfans gofal sy'n daladwy bob mis a'i drefniadau ar gyfer ei hawlio, gan roi sylw llawn i benderfyniadau'r Panel yn hyn o beth.

### Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

25. Yn ddarostyngedig i baragraffau 26 a 27 isod mae gan aelod neu aelod cyfetholedig hawl i gael taliadau gan yr awdurdod ar ffurf lwfansau teithio a chynhaliaeth yn ôl cyfraddau a bennwyd gan y Panel yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf neu mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol. Bwriedir i'r cyfryw lwfansau dalu costau yr aed iddynt gan aelod neu aelod cyfetholedig wrth gynnal busnes swyddogol yr awdurdod.

**(dim ond i awdurdodau lleol mae paragraffau 26 a 27 yn gymwys)**

26. Ni ddylid talu lwfans cynhaliaeth i aelod o awdurdod lleol am gynnal busnes swyddogol o fewn ffiniau sir neu fwrdeistref sirol lle mae'n aelod. Nid yw hyn yn gymwys mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig awdurdod lleol sy'n byw y tu allan i'r awdurdod hwnnw.

27. Gall awdurdod lleol wneud darpariaeth, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau yr ystyria eu bod yn briodol, i aelodau hawlio costau milltiroedd ar gyfer busnes swyddogol mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward lle maent yn deillio o gyflawni swyddogaethau'r sir neu'r fwrdeistref sirol.

28. Os caiff aelod neu aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod (fel y cyfeiria Rhan 3 o Ddeddf 2000) mae'n rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r lwfans teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy i'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

## Rhan 3

## Darpariaethau Pellach

### Pensiynau

29. O dan Adran 143 o'r Mesur, gall y Panel wneud penderfyniadau o ran y trefniadau pensiwn ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf neu mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol. Caiff y Panel:

- Benderfynu ar y disgrifiadau o aelodau y bydd yn ofynnol i awdurdod perthnasol dalu pensiwn iddynt.
- Penderfynu ar y materion perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdod perthnasol dalu pensiwn perthnasol mewn cysylltiad â hwy.



DRAFT

- Gwneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer awdurdodau gwahanol.

**Lwfansau i gynorthwyo swyddogaeth aelod o awdurdod lleol**

30. Mae'n rhaid i awdurdod lleol ddarparu ar gyfer gofynion aelod i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau yn fwy effeithiol. Gellir darparu'r cyfryw gymorth mewn nwyddau neu drwy lwfans penodol fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf neu mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol.

**Talu costau ymweliadau swyddogol ac ymweliadau cwrteisi**

31. Bydd y trefniadau a nodir yn Adran 176 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn parhau i fod yn gymwys ond ni ellir gwneud unrhyw daliad i unigolyn o dan y trefniant hwnnw pan fydd taliad wedi'i wneud i'r unigolyn hwnnw yn unol ag unrhyw daliad a wneir o dan y rheoliadau hyn.

**Y Trefniadau o ran Absenoldeb Teuluol**

32. Mae Rhan 2 o'r Mesur yn nodi hawliau aelodau awdurdodau lleol o ran absenoldeb teuluol. Bydd y Panel yn nodi ei benderfyniadau a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer talu cyflogau a lwfansau gan awdurdodau lleol yn hyn o beth yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf ac unrhyw ddiwygiadau mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol.

## Rhan 4

**Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

33. Mae'n rhaid i awdurdod fynnu bod y cyfryw ran o gyflog, lwfans neu ffi yn cael ei had-dalu pan fydd taliad eisoes wedi'i wneud o ran unrhyw gyfnod pan fydd yr aelod neu'r aelod cyflogedig dan sylw:

- Wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag cyflawni dyletswyddau neu gyfrifoldebau'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno.
- Yn peidio â bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod.
- Neu heb fod â hawl, mewn unrhyw ffordd, i gael cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw.

**Ymwrthod â'r hawl i gael cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

34. O dan Adran 154 o'r Mesur gall unrhyw aelod neu aelod cyfetholedig, drwy hysbysu swyddfa briodol yr awdurdod yn ysgrifenedig, ymwrthod ag unrhyw ran o'i hawl i gael cyflog, lwfans neu ffi a bennwyd gan y Panel ar gyfer y flwyddyn benodol honno (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod).

DRAFT

## Rhan 5

## Amrywiol

### Trefniadau ar gyfer taliadau

35. Mae'n rhaid i Restr awdurdod nodi'r trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw. Gellir gwneud y cyfryw daliadau ar y cyfryw adegau ag a bennir gan yr awdurdod.

### Ceisiadau

36. Mae'n rhaid i awdurdod nodi terfyn amser o'r dyddiad y mae hawl i lwfans teithio neu gynhaliaeth yn codi pan fydd yn rhaid i gais am y lwfansau hynny gael ei wneud gan y sawl y maent yn daladwy iddo. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal awdurdod rhag gwneud taliad os na hawlir y lwfans o fewn y cyfnod a nodwyd.

37. Mae'n rhaid cyflwyno derbynebau priodol sy'n profi costau gwirioneddol gydag unrhyw gais am lwfans teithio neu lwfans cynhaliaeth yn unol â'r rheoliadau hyn (heb gynnwys ceisiadau am gostau teithio mewn cerbyd modur preifat).

### Osgoi dyblygu

38. Mae'n rhaid i gais am lwfans teithio neu lwfans cynhaliaeth gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan yr aelod neu'r aelod cyfetholedig yn nodi nad yw'r aelod/aelod cyfetholedig wedi gwneud ac na fydd yn gwneud unrhyw gais arall mewn perthynas â'r mater y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu mae'n rhaid anfon y cyfryw ddatganiad gyda'r cais.

### Cofnodion o Gyflogau, Lwfansau a Ffioedd

39. Mae'n rhaid i awdurdod gadw cofnod o'r taliadau a wnaed yn unol â'r rheoliadau hyn. Mae'n rhaid i'r cyfryw gofnod:

- Nodi enw'r derbynnydd a swm a natur pob taliad.
- Bod ar gael, ar bob adeg resymol, i'w archwilio (am ddim) gan unrhyw etholwr llywodraeth leol (o fewn ystyr adran 270(1) o Ddeddf 1972) ar gyfer ardal yr awdurdod.
- Caniatáu i unigolyn sydd â hawl i archwilio'r cofnod wneud copi o unrhyw ran ohono ar ôl talu'r cyfryw ffi resymol ag y gall yr awdurdod ofyn amdani.

DRAFT

**Gofyniad Cyhoeddusrwydd (dim ond i awdurdodau lleol mae paragraff 42 yn gymwys)**

(Rhoddir canllawiau ar yr hyn y mae angen ei gynnwys yn y Gofynion Cyhoeddusrwydd yn Atodiad 3)

40. Mae'n rhaid i awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu ar ei Restr o daliadau ar gyfer y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) o dan y rheoliadau hyn ac unrhyw Adroddiad gan y Panel, a chyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati, wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r rhestr yn ardal yr awdurdod.

41. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol a chyn 30 Medi ar ôl diwedd blwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod), mae'n rhaid i awdurdod wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi, yn ardal yr awdurdod, y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod/aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog sylfaenol, uwch gyflog, ffi aelod cyfetholedig, lwfansau gofal, teithio a chynhaliaeth.

42. O fewn yr un terfyn amser ac yn yr un modd, mae'n rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol a gafwyd gan aelod a enwebwyd, neu a benodwyd gan unrhyw gorff gwasanaeth cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw awdurdod perthnasol arall) i wasanaethu fel aelod cyffredin neu ddeiliad swydd.

**Cyhoeddi Adroddiadau'r Panel**

43. O dan Adran 146(7) (a) a (b) o'r Mesur, bydd y Panel yn anfon drafft ymgynghori o'i adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol i bob awdurdod perthnasol i'w ddosbarthu i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod, er mwyn i aelodau/aelodau cyfetholedig gyflwyno sylwadau arno i'r Panel, fel arfer mewn cyfnod o wyth wythnos.

44. Yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf ac mewn Adroddiadau Blynyddol ac Atodol dilynol bydd y Panel yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi ei Adroddiadau yn unol ag Adran 151 ac Adran 152 o'r Mesur.

**Monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel**

45. Mae Adran 153 o'r Mesur yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau perthnasol gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol. Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r Panel fonitro'r taliadau a wneir gan awdurdodau perthnasol a mynnu y darperir y wybodaeth y mae'n ei nodi. Nodir y gofynion o dan yr adran hon ym mhob Adroddiad Blynyddol gan y Panel.

# Atodiad 2

## Canllawiau: Rhestr o Gyfrifoldebau a Chydnabyddiaeth Aelodau

1. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru (‘awdurdodau perthnasol’ sy'n rhan o gylch gwaith y Panel) gynnal Rhestr flynyddol o Gyfrifoldebau a Chydnabyddiaeth Ariannol Aelodau (y ‘Rhestr’) sy'n cyd-fynd â phenderfyniadau'r Panel ynghylch cyflogau aelodau a thaliadau i aelodau cyfetholedig ac sy'n gorfod cynnwys y wybodaeth ganlynol:

a. Enwau'r aelodau a fydd yn cael y Cyflog Sylfaenol yn unig.
b. Enwau'r aelodau a fydd yn cael Uwch Gyflog Band 1 a Band 2, y swydd a'r portffolio a ddelir a'r swm a delir.
c. Enwau'r aelodau a fydd yn cael Uwch Gyflog Band 3 a Band 4, y swydd a'r portffolio a ddelir a'r swm a delir.
d. Enwau'r aelodau a fydd yn cael ffi Aelod Cyfetholedig a ph'un a ydynt yn gadeirydd neu'n aelod cyffredin.

2. Mae'n rhaid cyfleu diwygiadau a wneir i'r Rhestr yn ystod y flwyddyn (fel y maent yn ymwneud â'r awdurdod) i'r Panel cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

3. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gadarnhau yn eu Rhestr flynyddol nad ydynt wedi mynd dros uchafswm yr uwch gyflogau a bennwyd ar gyfer y cyngor, ac eithrio er mwyn cynnwys deiliad swydd ag uwch gyflog dros dro sy'n cymryd lle'r deiliad swydd penodedig sy'n absennol am resymau teuluol dros dro.

4. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gynnwys datganiad o gostau y gellir eu caniatáu a'r dyletswyddau y gellir hawlio lwfansau Gofal, Teithio a Chynhaliaeth amdanynt yn eu Rhestr flynyddol sy'n cyd-fynd â phenderfyniadau'r Panel.

5. Mae'n rhaid i'r Rhestr nodi'r trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod perthnasol (Rheoliad 35 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); y trefniadau ar gyfer hawlio costau gofal, teithio a chynhaliaeth (Rheoliadau 24 a 36-37 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); y trefniadau ar gyfer osgoi dyblygu (Rheoliad 38 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); a'r trefniadau ar gyfer ad-dalu cyflogau, lwfansau a ffioedd (Rheoliad 33 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol). Mae'n rhaid i'r rhestr hon hefyd gynnwys y dyletswyddau y gall aelodau ac aelodau cyfetholedig hawlio lwfansau teithio, cynhaliaeth a gofal amdanynt.

6. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru ddatgan yn y Rhestr y cedwir cofnodion o gyflogau, lwfansau a ffioedd yn unol â Rheoliad 39 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

DRAFT

7. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatgan yn y Rhestr pa gymorth (er enghraifft, ffonau, gliniaduron, costau postio, deunydd ysgrifennu) a ddarparwyd am ddim i'r cynghorydd unigol i alluogi cynghorwyr i gyflawni eu cyfrifoldeb sylfaenol a'u huwch gyfrifoldeb (Rheoliad 30).

8. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatgan yn y Rhestr a ydynt wedi trafod goddefebau treth bloc i'w cynghorwyr gyda Chyllid a Thollau EM mewn perthynas â'r holl dreuliau y gellir eu hawlio ac i sicrhau bod eu cynghorwyr yn cael cyngor ar dreth a budd-daliadau mewn perthynas â'u henillion a'u treuliau.

9. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatgan y canlynol yn y Rhestr:

- A oes datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd wedi'i wneud.
- A oes disgrifiadau o rôl deiliaid swyddi ag uwch gyflog wedi'u llunio.
- A gedwir cofnodion o bresenoldeb cynghorwyr.
- A gedwir cofnodion o unrhyw weithgarwch cynghorwyr.
- A gaiff adroddiadau blynyddol eu llunio gan gynghorwyr a'u cyhoeddi ar wefan y cyngor.

10. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr o Gyfrifoldebau a Chydnabyddiaeth Ariannol Aelodau a Chydnabyddiaeth Ariannol Aelodau cyn gynted ag y bo'n ymarferol a chyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) y mae'n gymwys ynddi.

DRAFT

# Atodiad 3

## Canllawiau: Gofynion Cyhoeddusrwydd

1. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub yng Nghymru ('awdurdodau perthnasol' sy'n rhan o gylch gwaith y Panel) wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi yn ardal yr awdurdod y gydnabyddiaeth ariannol a gafwyd gan ei aelodau a'I aelodau cyfetholedig. Mae'n rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod), a chyn 30 Medi nesaf yn dilyn diwedd y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) y mae'r taliadau yn ymwneud â hi. Mae'n rhaid rhoi'r wybodaeth ganlynol:

a. Y Cyflog Sylfaenol, yr Uwch Gyflog a'r Ffi Aelod Cyfetholedig a dalwyd i bob aelod/aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol a enwir, gan gynnwys pan oedd yr aelod wedi dewis ymwrthod â'i hawl i gael y cyfan neu ran o'r cyflog neu ffi ar gyfer y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) dan sylw. Pan fydd uwch gyflog wedi'i dalu, mae'n rhaid rhoi teitl yr uwch swydd a ddelid.

b. Swm unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol a gafwyd gan unrhyw aelod a enwir a enwebwyd, neu a benodwyd, i gorff gwasanaeth cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw awdurdod perthnasol arall) fel aelod cyffredin neu fel deiliad swydd.

c. Yr holl gostau gofal, teithio a chynhaliaeth a gafwyd gan bob aelod ac aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol a enwir, gan nodi pob categori ar wahân.

d. Aelodau a enwir a ddewisodd ymwrthod â'r hawl i gael y cyfan neu ran o'u cyflog gan ddangos y rhan sydd i'w thalu.

e. Aelodau a enwir a gafodd Uwch Gyflog dros dro i gymryd lle deiliad swydd ag Uwch Gyflog a oedd yn absennol am resymau teuluol am y cyfan neu ran o'r cyfnod blynyddol y mae'r Rhestr yn gymwys iddo (awdurdodau lleol yn unig).

f. Aelodau a enwir a gafodd gydnabyddiaeth ariannol fel aelodau cyffredin neu ddeiliaid swyddi mewn cyrff gwasanaeth cyhoeddus eraill, gan gynnwys awdurdodau perthnasol eraill, gan ddangos unrhyw swydd a ddelid a'r gydnabyddiaeth ariannol a gafwyd.

g. Aelodau a enwir na chafodd y Cyflog Sylfaenol na'r Uwch Gyflog am eu bod wedi'u hatal dros dro am y cyfan neu ran o'r cyfnod blynyddol y mae'r Rhestr yn gymwys iddo.

DRAFT

## Am ragor o gopïau o'r adroddiad hwn, cysylltwch â:

Ysgrifenyddiaeth
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Ystafell N.07
Llawr Cyntaf
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6913
E-bost: irpmailbox@wales.gsi.gov.uk.

Mae'r Adroddiad ar gael ar ein gwefan yn:

www.panelcymrugydnabyddiaethariannol.org.uk.

DRAFT